



Adroddiad Stiwardiaeth Blynyddol 2022/23



Rhagair

Ar gyfer y flwyddyn yn diwedd ar 31 Mawrth 2023

Mae'n bleser gennyf gyflwyno'r trydydd Adroddiad Stiwardiaeth Blynnyddol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2023. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi ein gweithgarwch stiwardiaeth dros y flwyddyn, yn nodi'r camau yr ydym wedi'u cymryd ar y cyd â'n partneriaid a'r canlyniadau rydym wedi'u cyflawni, gan ddangos ein bod yn cydymffurfio â Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU.

Roeddem yn falch o fod wedi cadw ein statws llofnodwr yn gynharach eleni, gyda chynnydd yn cael ei wneud i wella ein dull buddsoddi cyfrifol (RI). Fodd bynnag, gwnaethom gydnabod bod sawl maes lle'r oedd PPC yn dymuno symud ymlaen ymhellach, yn enwedig o ran sut rydym yn adrodd i'n rhanddeiliaid a sut rydym yn mynd i'r afael â risg hinsawdd. Rydym yn falch ein bod wedi gwneud cynnydd ar y ddau faes hyn wrth hefyd ddatblygu Is-Gronfeydd pellach y gall ein wyth cronfa bartner weithredu eu strategaethau buddsoddi priodol drwyddynt.

Roedd y flwyddyn yn un llawn heriau ar y lefel macro-economaidd, gyda chwyddiant parhaus ac ansicrwydd economaidd, effeithiau parhaol pandemig Covid-19, yr argyfwng giltiau yn y DU, tensiynau cynyddol ym Môr De Tsieina a'r gwrthdaro parhaus yn Wcráin. Gwnaethom hefyd barhau i weld newid yn yr hinsawdd yn ganolog i ystyriaethau perchnogion asedau. Parhaodd hyn yn ganolbwynt i'r PPC, gan sbarduno nifer o gamau gweithredu dros y flwyddyn.

Drwy adeiladu ar ein gwaith blaenorol, gwnaethom gyflwyno ein troshaen carbon isel ar yr Is-gronfa Cyfleoedd y DU ar ddechrau'r flwyddyn, gan eithrio cwmnïau sy'n dibynnu ar lo i gynhyrchu refeniw a chyflawni lleihad o 25% yn ôl troed carbon yr Is-gronfa. Gan gydnabod yr angen i adeiladu consensws yn ein dull o fynd i'r afael â risg yn yr hinsawdd, gwnaethom gomisiynu gwaith ar Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan (AWCR), a fydd yn mynd i'r afael â'r cynnydd sydd eisoes wedi'i wneud ac yn hwyluso trafodaethau pellach ar bolisi hinsawdd ar draws ein holl rhanddeiliaid.

Roeddem hefyd yn falch iawn o weithio gyda Russell Investments i symud ymlaen â datblygiad yr Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, sydd, er iddo gael ei lansio'n ffurfiol ar ôl diwedd y flwyddyn, wedi ennill cefnogaeth gan bob un o'n wyth cronfa bartner, gan ddangos eu hawydd i ddyrannu strategaethau cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar fod yn gynaliadwy. Gwnaed cynnydd hefyd ar ehangu ystod ein cronfeydd trwy benodi dyranwyr marchnadoedd preifat ar draws dyledion preifat, seilwaith ac ecwiti preifat, lle'r oedd ystyriaethau buddsoddi cyfrifol yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddewis ein partneriaid. Dylai'r cynnydd hwn barhau i ganiatáu i asedau lifo i mewn i'r PPC dros amser, gan bwysleisio'r angen i ni barhau i godi ein disgwyliadau a'n safonau stiwardiaeth.

Cryfhawyd ein dull o stiwardiaeth trwy ddatblygu Fframwaith Stiwardiaeth sy'n ein galluogi i ymgysylltu â'n rhanddeiliaid a chanolbwyntio ar y themâu sy'n bwysig iddynt yn fwy effeithiol. Mae hefyd yn caniatáu inni gyfrannu at y gwaith a wneir gan Robeco fel ein Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu (V&E). Ar ein rhan, pleidleisiodd Robeco ar dros 15,000 o benderfyniadau a chynnal dros 200 o ymgysylltiadau gyda chwmnïau ar draws ystod o faterion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG). Rydym hefyd wedi gweithio i wella ein hadroddiadau fel y gallwn gyfleu ehangder a dyfnder y gwaith hwn i'n rhanddeiliaid, tra hefyd yn gweithio i wella'r cydweithio rhwng ein darparwyr gwasanaethau.

Ar y cyfan, rydym wrth ein bodd gyda'r cydweithio parhaus a gwerthfawr ar fuddsoddi cyfrifol sydd wedi digwydd ar draws yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLLL) sylfaenol yng Nghymru, a sut mae hyn wedi'i hwyluso gan ein darparwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill. Mae PPC yn cydnabod pwysigrwydd perchnogaeth weithredol gyfrifol, ac edrychwn ymlaen at ddatblygu ein nodau stiwardiaeth gyda'n gilydd dros y flwyddyn nesaf a thu hwnt.



Ted Palmer

Cadeirydd, Cyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru

Hydref 2023

Cipolwg ar 2022/23:

CYFANSWM ASED AU CYFUN

£15.7bn

sy'n cynrychioli **70% o gyfanswm asedau** cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Cymru

£10.6bn

wedi'i fuddsoddi'n weithredol drwy 9 Is-Gronfa; mae

72% wedi'i fuddsoddi mewn ecwiti



Penodi chwe

dyrannwr/rheolwr i reoli asedau ar y farchnad breifat ar draws ecwiti preifat, seilwaith a dyled breifat

Datblygwyd Fframwaith Stiwardiaeth newydd.

Tair thema gyfredol:



Canolbwyntio ar Sero Net



Cefnogi Poble



Llywodraethu ar gyfer Canlyniadau Cynaliadwy

Cyflwynwyd troshaen carbon isel ar ein His-gronfa Cyfleoedd y DU, sydd wedi arwain at ostyngiad o

17% yn y Cyfartaledd Pwysedig o ran Dwyster Carbon (WACI)

Gostyngodd yr WACI cyfartalog o'n buddsoddiadau ecwiti gweithredol

11% dros y flwyddyn



Ar draws ein portffolio ecwiti gweithredol, gwnaethom bleidleisio mewn dros **1,200 o gyfarfodydd**, gan fwrw dros **15,000 o bleidleisiau**



15%

Roedd o'n pleidleisiau yn ymwneud â rheoli

Roedd gan Robeco **223 o ymgysylltiadau corfforaethol** ar ein rhan ar draws **20 thema wahanol**.



Roedd

88 o ymgysylltiadau yn uniongyrchol gysylltiedig â materion amgylcheddol

Pwy ydym ni

Ei cronfa

Sefydlwyd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn 2017 ac mae'n gydweithrediad rhwng yr wyth Awdurdod Cyfansoddol sy'n cwmpasu Cymru gyfan. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ei hun yn un o wyth cronfa asedau ledled Cymru a Lloegr sy'n gyfrifol, ar y cyd, am reoli a stiwardio asedau ar gyfer cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r wyth Awdurdod Cyfansoddol sy'n ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru fel a ganlyn:



Mae gan yr Awdurdodau Cyfansoddol hanes hir a llwyddiannus o gydweithio, sy'n dyddio nôl i'r amser cyn menter gyfuno'r Llywodraeth a ffurfio Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn falch o'n hunaniaeth unigryw fel Cronfa - mae ei Hawdurdodau Cyfansoddol yn cynrychioli ac yn rhychwantu Cymru gyfan, gan greu aliniad daearyddol o fuddiannau. Mae bod yn ddemocrataidd atebol yn golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn darparu trefn lywodraethu gref a thryloywder y sector cyhoeddus ar ei orau.

Ei haelodau

Mae aelodaeth o'r wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sy'n ffurfio'r Gronfa gyfunol yn wirfoddol. Mae'r sefydliadau sy'n cymryd rhan yng nghronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn cynnwys:

- Cyrff cofrestredig, sef awdurdodau lleol a chyrrff tebyg y mae gan eu staff hawl i fod yn aelodau yn awtomatig.
- Cyrff a gaiff eu derbyn, sy'n cymryd rhan o dan delerau cytundeb derbyn rhwng y Gronfa Bensiwn a'r sefydliad perthnasol. Mae cyrrff a gaiff eu derbyn yn cynnwys cyrrff gwirfoddol, elusennol a thebyg neu gontractwyr preifat sy'n ymgymryd â swyddogaeth awdurdod lleol yn dilyn allanoli i'r sector preifat.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gwasanaethu cyfanswm o 404,275 o aelodau (152,067 gweithredol, 118,002 pensinywyr, 134,206 gohiriedig) ar draws yr wyth cronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Ei model

Mae model gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn seiliedig ar ein credoau buddsoddi cyffredin, ac mae wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg a darparu gwerth am arian, a dod ag arbenigedd gorau'r maes i gefnogi'r gwaith o reoli'r Gronfa yn barhaus.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi penodi Gweithredwr allanol sef Link Fund Solutions (Link), mewn partneriaeth â'n Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau penodedig, Russell Investments (Russell). Mae model gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod yr angen am arbenigedd allanol er mwyn cyflawni amcanion. Er mwyn cryfhau ein hymdrechion stiwardiaeth ar y cyd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymgysylltu â Robeco fel ei Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, gan ddod â llais blaenllaw i weithredu uchelgeisiau stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn parhau i ddibynnu ar Hymans Robertson fel Ymgynghorydd Goruchwylio.

Gan fod ehangder yr asedau dan reolaeth wedi tyfu a bod ein ffocws wedi symud tuag at gyflwyno datrysiadau'r farchnad breifat, rydym hefyd wedi ymgysylltu â bfinance i'n cynorthwyo i ddod o hyd i bartneriaid hirdymor priodol.

Ein pwrpas, ein gwerthoedd a'n diwylliant

Rydym yn ffodus bod gennym lefel uchel o gydweithio rhwng ein holl randdeiliaid ac rydym yn teimlo bod cyfraniadau parhaus yr Awdurdodau Cyfansoddol tuag at gyflawni ein nodau cyffredin yn un o'n cryfderau allweddol. Yn erbyn y cefndir hwn, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, drwy ymgynghori â phob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol, wedi ffurfio'r prif amcanion canlynol:

- Darparu trefniadau cyfuno sy'n galluogi cronfeydd unigol i weithredu eu strategaethau buddsoddi eu hunain, lle'n ymarferol.
- Cyflawni arbedion cost sylweddol ar gyfer Cronfeydd Pensiwn cyfranogol wrth wella neu gynnal perfformiad buddsoddi ar ôl talu ffioedd.
- Rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith i oruchwylio gweithgareddau'r Gronfa.
- Gweithio'n agos gyda Chronfeydd eraill er mwyn archwilio'r buddion y gallai pob rhanddeiliad yng Nghymru eu cael trwy ddatrysiadau cyfuno ehangach neu fuddsoddiadau uniongyrchol posibl.
- Cyflwyno fframwaith buddsoddi sy'n cyflawni'r canlyniadau gorau i'n prif randdeiliaid: yr Awdurdodau Cyfansoddol: Bydd yr Awdurdodau Cyfansoddol yn gallu defnyddio'r fframwaith hwn i gyflawni'r canlyniadau gorau i Aelodau a Chyflogwyr eu Cynlluniau.

Er mwyn nodi, adolygwyd yr amcanion hyn dros y flwyddyn adrodd, gydag amcan newydd wedi'i ychwanegu o 2023/24, un sy'n siarad ag ymgorffori canlyniadau buddsoddi cynaliadwy. Adroddir ar hyn yng nghyflwyniad y flwyddyn nesaf

Credoau buddsoddi

- ✓ Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu platfform cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol.
- ✓ Dylai trefn lywodraethu dda arwain at ganlyniadau gwell i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Mae cydweithio mewnol rhwng yr Awdurdod Cynnal a'r Awdurdodau Cyfansoddol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru. Gall cydweithio allanol fod yn fuddiol hefyd er mwyn cyflawni arbedion cost a chanlyniadau gwell i randdeiliaid.
- ✓ Dylai Buddsoddi Cyfrifol a strategaethau effeithiol i liniaru risg i'r hinsawdd, ynghyd ag ystyried a rheoli materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ehangach ar sail tystiolaeth, arwain at well canlyniadau i randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hollbwysig er mwyn cyflawni amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd gost-effeithiol o wella adnoddau, galluoedd ac arbenigedd Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Bydd tryloywder ynghylch ffioedd a chostau yn helpu'r broses o wneud penderfyniadau ac yn gwella canlyniadau i randdeiliaid.
- ✓ Bydd dysgu, arloesi a datblygu parhaus yn helpu Partneriaeth Pensiwn Cymru a'i Hawdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu.
- ✓ Bydd ymagwedd hyblyg at strwythur cyfuno a dulliau gweithredu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn galluogi'r Gronfa i addasu yn y dyfodol a pharhau i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid.

Credoau Buddsoddi Cyfrifol

- ✓ Rhaid i'r ymddygiadau Buddsoddi Cyfrifol yr ydym am i'n holl randdeiliaid eu harddangos gael eu harwain gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.
- ✓ Mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, mewn prosesau buddsoddi yn rhag-amod ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y posibilrwydd i golli arian.
- ✓ Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru ar ei mwyaf effeithiol fel buddsoddwr sy'n gweithio dros newid o'r tu mewn, yn enwedig mewn cydweithrediad â buddsoddwyr eraill o'r un anian, yn hytrach na fel ymgyrchydd sy'n lloïo am newid o'r tu allan.
- ✓ Bydd ein heffaith ar ymddygiadau corfforaethol ar ei chryfaf pan siaradwn ag un llais.
- ✓ Mae trosolwg o arferion Buddsoddi Cyfrifol yn galw am ddatgelu clir a mesur data cynhwysfawr.

Ein credoau buddsoddi

Rydym yn parhau i gredu fod ein cryfder i'w gael yn ein credoau buddsoddi cyffredin a'n gallu i gydweithio tuag at gyflawni amcanion ar y cyd er budd holl randdeiliaid Partneriaeth Pensiwn Cymru. Adlewyrchir y rhain nid yn unig yn y model gweithredu a ddewiswyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys yr angen am arbenigedd allanol, ond hefyd yn y pwysigrwydd yr ydym yn ei roi i waith Is-grŵp Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru (RISG), sy'n cwrdd o leiaf unwaith bob chwarter i ymgysylltu'n benodol ar amcanion a chanlyniadau Buddsoddi Cyfrifol cyfunol y Gronfa. Mae'r set lawn o gredoau cyffredin i'w gweld yn [Llawlyfr Llywodraethu'r Gronfa](#).

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn diffinio Buddsoddi Cyfrifol fel 'arferion buddsoddi sy'n integreiddio'r ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sydd i'w hystyried mewn prosesau rheoli buddsoddiadau ac arferion perchnogaeth, gan gydnabod y gall y ffactorau hyn gael effaith faterol ar berfformiad ariannol'. Uchelgais hirdymor Partneriaeth Pensiwn Cymru yw dangos arweiniad ar Fuddsoddi Cyfrifol wrth reoli asedau ar gyfer ac ar ran yr Awdurdodau Cyfansoddol, gyda set o gredoau Buddsoddi Cyfrifol sy'n sail i brosesau gwneud penderfyniadau a llywodraethu.


Caiff y credoau hyn eu hadolygu'n flynyddol, a chynhaliwyd yr adolygiad diwethaf yn Chwarter 4 2022. Un nodwedd allweddol o'n credoau buddsoddi yw defnyddio arbenigedd allanol i gyflawni canlyniadau buddsoddi. Mae hyn yn arbennig o wir pan ddaw'n fater o'n hymrwymiad i stiwardiaeth trwy benodi Robeco yn Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae penodiad Robeco wedi arwain at ffocws penodol ar stiwardiaeth, sydd hefyd wedi hwyluso datblygiad un polisi pleidleisio ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gweithredu'r polisi hwn o 1 Ionawr 2021 wedi rhoi'r gallu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru siarad ag un llais ac, wrth i'r polisi hwn ddatblygu trwy gael mewnbnw parhaus gan yr Awdurdodau Cyfansoddol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl gweld ffocws cynyddol ar faterion sy'n bwysig i'n rhanddeiliaid.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried bod y cynnydd a wnaed dros y 12 mis diwethaf er mwyn rhoi sylw i stiwardiaeth wedi bod yn gadarnhaol. Gan fod pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol wedi'u cynrychioli ar RISG, rydym wedi sicrhau y gall pob un o'n rhanddeiliaid uniongyrchol gyfrannu at benderfyniadau. Mae'r drefn hon, ynghyd â'n fforymau eraill, yn golygu y gall pob Awdurdod Cyfansoddol godi materion o bwys lleol, gyda'r materion wedyn yn cael eu rhoi mewn trefn blaenoriaeth er mwyn gweithredu. Er enghraifft, mae RISG wedi mynd i'r afael â'r angen am oruchwyliaeth effeithiol ac, wrth weithio gyda'n Darparwyr Gwasanaethau, wedi datblygu proses fonitro fanylach, sydd yn y pen draw yn caniatáu mwy o dryloywder a mwy o herio. Bydd hyn yn galluogi Partneriaeth Pensiwn Cymru i gyflawni cred graidd arall, sef yr angen am gyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol.

Ein credoau yn ymarferol

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddeialog barhaus gyda gwahanol bleidiau ar bwnc newid hinsawdd a thanwydd ffosil, gan gynnwys Cyfeillion y Ddaear a Senedd Cymru. Mae safbwynt Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fod yn un o ddatblygu'r cyswllt sydd gennym â'r cwmnïau y mae'n buddsoddi ynddynt, gyda newid yn yr hinsawdd yn ganolbwynt allweddol i'n gweithgarwch ymgysylltu. Fodd bynnag, rydym yn parchu barn pobl eraill a'r angen am bontio, a chredwn y gallwn, drwy ymgysylltu â'r holl randdeiliaid, adeiladu ein dealltwriaeth a'n camau gweithredu. Mae hyn wedi dod i'r amlwg yn y dull a ddefnyddiwyd i ddatblygu ein His-gronfa Ecwiti Cynaliadwy, sy'n ymgorffori fframwaith alinio sero-net, gan gynnwys targed ymgysylltu ar allyriadau a gyllidir. Cafodd gwaith o ran atebion hinsawdd ei ddatblygu dros y flwyddyn hefyd, wrth ddatblygu cyfres o fandadau marchnadoedd preifat. Yn olaf, wrth ddymuno gwella ei stiwardiaeth ar draws ei Is-Gronfeydd ecwiti, hwylusodd PPC drafodaethau manwl ynghylch benthyca gwarannau cyfrifol, gyda phenderfyniad ar adalw stociau at ddibenion pleidleisio drwy ddirprwy wedi'i gwblhau yn dilyn diwedd y flwyddyn.

Yr Awdurdodau Cyfansoddol yw rhanddeiliaid pwysicaf Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nid yn unig y maent yn cynrychioli aelodau gwreiddiol Partneriaeth Pensiwn Cymru, nhw hefyd yw prif fuddiolwyr y Gronfa. Ffurfiodd yr Awdurdodau Cyfansoddol Gyd-bwyllgor Llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru er mwyn goruchwyllo'r Bartneriaeth ac adrodd ar ei gweithgarwch. Mae nifer o faterion ynglŷn â gwneud penderfyniadau wedi'u neilltuo i'r Awdurdodau Cyfansoddol, tra bod y gweddill yn cael eu hystyried yn faterion i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu.



Mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn manylu ar sut y mae'r Bartneriaeth yn ymdrin â phob agwedd ar lywodraethu, gan ddiffinio safonau, rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Cyfansoddol, ein Haelodau, Pwyllgorau a Swyddogion. Mae'r Cytundeb Rhwng Awdurdodau yn cynnwys Cynllun Dirprwyo sy'n amlinellu'r broses o wneud penderfyniadau ac sy'n rhoi ystyriaeth i ddeddfwriaeth berthnasol. Mae Cytundeb Rhwng Awdurdodau Partneriaeth Pensiwn Cymru i'w weld yn ein [Llyfryn Llywodraethu](#).

Adnoddau mewnol

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithredu fel Awdurdod Cynnal ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan ddarparu cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu a chysylltu o ddydd i ddydd â'r Gweithredwr ar ran holl gronfeydd y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru. O fewn yr Awdurdod Cynnal, mae dau aelod o staff, Rheolwr y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn a'r Uwch Swyddog Gwasanaethau Ariannol, yn cyflawni'r rôl hon. Rhyngddynt, mae ganddynt fwy na 25 mlynedd o brofiad mewn buddsoddi a gwasanaethau ariannol, ac maent wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol â PPC ers chwe blynedd.

Yn y pen draw, rôl yr Awdurdod Cynnal yw hwyluso nodau stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae hyn yn cynnwys trefnu sesiynau hyfforddi mewnol, cynrychioli PPC mewn digwyddiadau a chynadleddau allanol, cysylltu â Fforwm Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol (LAPFF), a bod yn bwynt cyswllt cyntaf â darparwyr allanol PPC (Russell, Robeco, Hymans Robertson), sy'n cyflawni'r swyddogaethau stiwardiaeth ar ran PPC.

Cyd-bwyllgor Llywodraethu

Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn cynnwys un aelod etholedig o bob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Rhaid i'r aelod etholedig fod yn aelod o'r Awdurdod Cyfansoddol ac o Bwyllgor Pensiynau'r Awdurdod Cyfansoddol hwnnw. Caiff y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd eu cylchdroi'n flynyddol. Caiff aelod cyfetholedig o gynllun y bwrdd pensiynau (heb bleidlais) hefyd ei gynrychioli ar y Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn gyfrifol am oruchwylio'r gwaith o gyfuno buddsoddiadau'r wyth Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghymru.

Gweithgor Swyddogion

Sefydlwyd y Gweithgor Swyddogion gyda'r bwriad o gynnig cefnogaeth a chynghor i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu. Mae'r Gweithgor Swyddogion yn cyfarfod o leiaf bedair gwaith y flwyddyn. Yn debyg i'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu, mae gan y Gweithgor Swyddogion hanes da o ymgysylltu a phresenoldeb. Mae o leiaf un cynrychiolydd o bob Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion ac mae'n gyffredin gweld y Swyddog Adran 151 a'r Ymarferydd ar gyfer pob un o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol yn bresennol.

Mae darparwyr ac ymgynghorwyr allanol Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn mynychu cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion, ac yn rhoi cefnogaeth neu gyngor yn ôl y galw. Ar hyn o bryd mae Gweithredwr Partneriaeth Pensiwn Cymru, y Darparwr Datrysiaid Rheoli Buddsoddiadau a'r Ymgynghorydd Goruchwylio i gyd yn mynychu holl gyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion. Mae partiïon eraill, fel ymgynghorwyr tryloywder costau, cynrychiolwyr Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol (LAPFF) ac Archwilio Cymru, hefyd yn cael eu gwahodd i fynychu cyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion pan fo angen.

Mae aelodau'r Gweithgor Swyddogion hefyd yn cyfarfod bob pythefnos. Defnyddir y cyfarfodydd rhithwir hyn i ddelio ag unrhyw faterion sy'n codi rhwng cyfarfodydd ffurfiol y Gweithgor Swyddogion ac i symud gweithgareddau yn eu blaen yn ôl yr angen. Mae'r trefniant hwn yn parhau i feithrin cydweithio rhwng yr Awdurdodau Cyfansoddol a chyflenwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, ac mae wedi golygu y gellir trafod materion stiwardiaeth mewn ffordd ad hoc yn ôl y galw.

Ein His-Grwpiau pwrpasol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd wedi sefydlu Is-grwpiau pwrpasol i ddatblygu neu symud yn eu blaenau rai elfennau o gynllun gwaith y Partneriaeth. Mae'r holl Is-grwpiau yn cael eu ffurfio o is-adran o'r Gweithgor Swyddogion ac maent yn gyfrifol am adrodd yn ôl yn ffurfiol i'r Gweithgor cyfan. Yr Is-grwpiau hyn yw:

- RISG, sy'n gyfrifol am ffurfio a chyflwyno Cynllun Gwaith Buddsoddi Cyfrifol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ogystal â chysylltu gyda Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu'r Partneriaeth.
- Yr Is-grŵp Risg, sy'n gyfrifol am fonitro, cynnal a gweithredu Cofrestr a Pholisi Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Yr Is-grŵp Marchnadoedd Preifat, sy'n gyfrifol am ffurfio a datblygu Is-gronfa/eydd Marchnadoedd Preifat Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Yr Is-grŵp Caffael, sy'n gyfrifol am ymarferion caffael.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gredu fod lefel yr amser y mae Swyddogion ac Ymgynghorwyr yn ei neilltuo i holl waith y Bartneriaeth, ynghyd â'r ffocws cynyddol fanwl ar wahanol weithgareddau, yn caniatáu i Bartneriaeth Pensiwn Cymru neilltuo amser ac adnoddau digonol ar gyfer pob un o'n gweithgareddau.

Yr Is-Grŵp Buddsoddi Cyfrifol (RISG)

Mae gwaith RISG yn ffordd hanfodol o sicrhau bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn neilltuo digon o amser a sylw i oruchwylio gweithgarwch stiwardiaeth a bod yn atebol amdano. Mae RISG yn cynnwys cynrychiolaeth gan Swyddogion o bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol, gyda chefnogaeth gan ymgynghorwyr allanol i ddarparu mewnbwn arbenigol yn ôl y galw.

Mae RISG yn gweithredu o dan ei Gylch Gwaith ei hun, gan ymgymryd â'r canlynol:

- Ffurio Cynllun Gwaith Blyneddol Partneriaeth Pensiwn Cymru ar gyfer Buddsoddi Cyfrifol sy'n caniatáu i'r Bartneriaeth ddatblygu ei amcanion Buddsoddi Cyfrifol.
- Gweithio gyda'r rheolwyr buddsoddi a benodwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru, y Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ymgynghorwyr a Darparwyr Gwasanaethau eraill i sicrhau bod Polisiâu Buddsoddi Cyfrifol, Pleidleisio a Risg Hinsawdd y Bartneriaeth yn cael eu gweithredu'n effeithiol.
- Datblygu arferion ar gyfer monitro materion Buddsoddi Cyfrifol ac adrodd arnynt.
- Monitro gweithgarwch Buddsoddi Cyfrifol, gan gynnwys metrigau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ac adroddiadau Pleidleisio ac Ymgysylltu, a herio darparwyr lle bo angen.
- Ystyried datblygiadau rheoleiddio a datblygiadau o ran marchnadoedd i sicrhau y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru ystyried arferion gorau sy'n datblygu.
- Bod yn gyfrwng ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill.

Dros y flwyddyn, cyfarfu'r RISG chwe gwaith, lle bu'n ystyried datblygu polisi benthyca stoc, datblygu fframwaith stiwardiaeth wedi'i ddiweddarau, themâu stiwardiaeth a gofynion adrodd parhaus. Yn ogystal, cwblhaodd y RISG adolygiad treigl o bob un o'r naw Is-Gronfa, a'r adolygiad chwarterol o weithgaredd Pleidleisio ac Ymgysylltu a gynhaliwyd gan Robeco.

Adnoddau allanol

Fel yr amlinellwyd yn ein credoau buddsoddi, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu y gall cyflenwyr allanol fod yn ffordd ffafriol a chost-effeithiol o gryfhau adnoddau, galluedd ac arbenigedd Partneriaeth Pensiwn Cymru. Cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ymarferiadau profi'r farchnad ac ymarferiadau caffael neu benodi cysylltiol trylwyr i gontractio'r cyflenwyr canlynol, gan gredu y bydd y cyflenwyr yma, ar hyn o bryd, yn gallu cynorthwyo'r Bartneriaeth i gyflawni'r canlyniadau gorau a mwyaf cost-effeithiol ar gyfer ein rhanddeiliaid.

O blith y gwahanol berthnasoddedd a drefnwyd i gefnogi'r gweithgareddau llywodraethu o ddydd i ddydd, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn dibynnu'n drwm ar bedwar darparwr allanol i gefnogi gweithgarwch stiwardiaeth.

Robeco: Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu

Mae gweithgarwch stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei wneud yn bennaf gan Robeco, sef y darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a benodwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae Robeco yn cynorthwyo Partneriaeth Pensiwn Cymru i gynnal Polisi Pleidleisio. Ymhellach, mae Robeco wedi cymryd cyfrifoldeb am weithredu'r Polisi Pleidleisio ar draws portffolio ecwiti gweithredol Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ogystal ag adrodd wrth y Bartneriaeth a'r cronfeydd sylfaenol. Mae Robeco hefyd yn darparu'r swyddogaeth ymgysylltu ar draws yr Is-gronfeydd gweithredol, yn ogystal â'r daliadau goddefol.

Mae tîm Perchnogaeth Weithredol Robeco yn gyfrifol am yr holl weithgareddau Pleidleisio ac Ymgysylltu a wneir gan Robeco, ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn cynnwys 18 o weithwyr proffesiynol Pleidleisio ac Ymgysylltu cymwys sydd wedi'u lleoli yn Rotterdam, Llundain, Singapore a Hong Kong ac sy'n cwmpasu ystod o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae'r tîm yn amlwladol ac amlieithog – sy'n fantais allweddol ar draws marchnadoedd amrywiol. Mae'r amrywiaeth hon yn cynnig dealltwriaeth o'r amgylchedd ariannol, cyfreithiol a diwylliannol

y mae'r cwmnïau Robeco yn ymwneud ag ef ac yn gweithredu ynddo, sy'n arbennig o berthnasol o ystyried dosbarthiad rhanbarthol asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru fel y darluniwyd ar dudalen 17.

Lansiwyd Academi Buddsoddi Cynaliadwy (SI) Robeco yn 2021, gan ddarparu cyrsiau ar-lein ar gynaliadwyedd i ddiwallu anghenion hyfforddi staff. Ehangodd Robeco y cynnwys sydd ar gael drwy'r porth yn 2022, gan lansio cwrs hanfodion newydd ar fuddsoddi yn yr hinsawdd. Caiff stiwardiaeth ei gymell o fewn Robeco drwy fod gan weithwyr o leiaf un Dangosydd Perfformiad Allweddol sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd wedi'i gynnwys yn eu hadolygiad perfformiad blynyddol, sydd ar waith ers 2021. Gall gweithwyr Robeco gynnwys cyrsiau'r Academi Buddsoddi Cynaliadwy yn eu Dangosydd Perfformiad Allweddol cynaliadwyedd fel rhan o'u harfarniadau blynyddol.

Link Fund Solutions: Gweithredwr

Penodwyd Link yn Weithredwr allanol, a chyda chefnogaeth Russell, maent yn gweithio i hwyluso datrysiadau rheoli buddsoddi effeithiol a darparu perfformiad cryf heb gynnwys ffioedd ar gyfer yr holl Is-gronfeydd marchnadoedd a restrir.


Mae Link yn cefnogi gweithgareddau stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru trwy ddarparu adroddiadau goruchwyllo rheolwyr, gan gynnwys newidiadau o ran sgorio perfformiad a rheolwyr, yn ogystal ag addasu gofynion canllawiau i reolwyr, yn enwedig gyda golwg ar feini prawf Buddsoddi Cyfrifol ac Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae Link hefyd yn cefnogi'r gwaith o ymgysylltu â'r Ceidwad gwaelodol, Northern Trust.

**I nodi, mae Waystone Group wedi cwblhau caffael Link Fund Solutions (Hydref 2023), er y byddwn yn parhau i gyfeirio at yr endid fel 'Link' drwy gydol yr adroddiad hwn.*

Russell: Darparwr Datrysiadau Rheoli Buddsoddiadau


Ar y cyd â Link, mae Russell yn darparu datrysiadau rheoli buddsoddiadau i Partneriaeth Pensiwn Cymru. Ynghyd â Link Fund Solutions, mae Russell yn gweithio mewn ymgynghoriad ag wyth Awdurdod Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru i sefydlu cyfryngau buddsoddi. Mae cylch gwaith Russell yn cynnwys cynghori Link Asset Services (is-gwmni i Link Fund Solutions) a Phartneriaeth Pensiwn Cymru ar adeiladu portffolio, sy'n cynnwys dewis rheolwr.

Mae Link Fund Solutions yn parhau i weithio gyda Russell, lle'n berthnasol, i leihau costau Partneriaeth Pensiwn Cymru ymhellach trwy strwythurau aml-reolwr, datrysiadau rheoli arian, troshaenau portffolio, rheoli trosglwyddiadau a gwasanaethau gweithredol eraill. Er nad yw Russell wedi'u penodi'n ddarparwr ymgysylltu fel y cyfryw, maent yn dal i gyflawni dyletswyddau stiwardiaeth ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru.



Mae gan Russell ddull integredig gydag arbenigwyr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu wedi'u cynnwys ledled y sefydliad. Mae eu Grŵp Llywio Buddsoddi Cyfrifol Byd-eang yn gyfrifol am lywio canlyniadau buddsoddi ac o sicrhau bod Russell yn darparu'r datrysiadau a'r canlyniadau Buddsoddi Cyfrifol gorau posibl i'w gleientiaid, gan gynnwys Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gan y Grŵp Llywio Buddsoddi Cyfrifol Byd-eang ddau noddwr ar lefel prif swyddogion, yn arbennig y Prif Swyddog Gwybodaeth Byd-eang a Phennaeth Ewrop, y Dwyrain Canol ac Affrica (EMEA). Mae gan Russell hefyd nifer o weithgorau sy'n gysylltiedig â Buddsoddi Cyfrifol, sydd â'r dasg benodol o gyflawni ymchwil (gan gynnwys newid hinsawdd) a datblygu strategaeth.

Mae Russell yn parhau i ffafrio dull integredig o ymdrin â Buddsoddi Cyfrifol ac mae ganddo arbenigwyr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu wedi'u hymgorffori ledled y sefydliad. Cyngor Buddsoddi Cyfrifol 'Go-to-Market' Russell sy'n gyfrifol am y strategaeth Buddsoddi Cyfrifol yn gyffredinol ac am gyflawni datrysiadau a chanlyniadau Buddsoddi Cyfrifol ei gleientiaid yn fyd-eang; Cyngor Buddsoddi Cyfrifol yr Is-adran Buddsoddi yw corff Russell o arbenigwyr Buddsoddi Cyfrifol, sy'n helpu i weithredu datrysiadau Buddsoddi Cyfrifol ar gyfer cleientiaid.



Mae'r adnoddau hyn ar gael i Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn ôl yr angen ac yn cael eu defnyddio gan Russell wrth reoli'r Is-gronfeydd yn barhaus ar ran y Bartneriaeth. Er enghraifft:

- Hwyluso datblygiad yr Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, a lansiwyd yn dilyn diwedd y flwyddyn. Yn benodol, ystyriodd Russell y gofynion allweddol ynglŷn â chydymffurfio â chytundeb Paris a diffiniodd y gwaharddiadau a gyflwynwyd gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ac roedd yn gallu teilwra'r ateb yn unol â hynny. Dewisodd Russell bum rheolwr yn benodol sy'n rhedeg strategaethau cynaliadwy, gan gynnwys targedu ar gyfer dyroddwyr sy'n cynnig atebion cynaliadwy i heriau amgylcheddol a chymdeithasol, a'r rhai a fydd yn elwa o'r 'Trawsnewid Cyfiawn'.
- Mae Russell wedi bod yn weithgar wrth ddarparu adborth ar gyfer unrhyw bryderon ynghylch stiwardiaeth ad hoc a godwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Er enghraifft: ymateb i bryderon ynghylch ymrwymïadau aflwyddiannus gyda chwmnïau sy'n gweithredu yn y Tiriogaethau Palesteinaidd a feddiannir (mewn ymateb i ohebiaeth â LAPFF); darparu mewnbyn mwy manwl i ymrwymïadau y mae'r rheolwyr buddsoddi sylfaenol wedi'u cael gyda chyhoeddwy'r nodwyd fel rhai sy'n achosi'r risg Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu mwyaf.
- Mae PPC wedi dechrau deialog gyda Russell ar weithredu polisi ynghylch gwahardd troseddwy'r Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig (UNG) ar draws yr Is-Gronfeydd gweithredol. Mae'r polisi, yn y lle cyntaf, wedi'i gymhwyso'n benodol i'r Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, lle byddai unrhyw ymgysylltiad aflwyddiannus â throseddwy'r UNGC, h.y. lle na phrofwyd unrhyw dystiolaeth o newid cadarnhaol yn cyfiawnhau dadfuddsoddi'r cyhoeddwy'r hynny.

Er mwyn cymell stiwardiaeth effeithiol mae gan holl gymdeithion Russell, sydd â chyfrifoldebau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, stiwardiaeth a newid hinsawdd penodol, nodau perfformiad blynyddol sy'n cyd-fynd â llwyddiant integreiddio'r materion hyn. Mae'r nodau hyn yn cynnwys datblygu arferion Buddsoddi Cyfrifol a stiwardiaeth Russell i fod yn unol â safonau byd-eang trwy gydweithio â chyrrff diwydiannol blaenllaw i ddatblygu fframweithiau diwydiant, gyrru arferion ymgysylltu, ac ymchwil a datblygu. Nod yr holl eitemau hyn yw darparu arferion stiwardiaeth cadarn i gyflawni amcanion Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae llwyddiant wrth fodloni'r nodau perfformiad penodol hyn sy'n ymwneud â stiwardiaeth a materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn gysylltiedig â chydabyddiaeth ariannol.

Hymans Robertson: Ymgynghorydd Goruchwyllo

Penodwyd Hymans Robertson yn Ymgynghorwr Goruchwyllo ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gan Hymans Robertson dîm Buddsoddi Cyfrifol ymroddedig o naw, sy'n cael eu cefnogi gan nifer o staff eraill yn y cwmni. Uchelgais Hymans yw gwneud ei gleientiaid yn 'stiwardiaid gwell', dull sy'n cyd-fynd â nod PPC ei hun o adeiladu ein hymagwedd at Fuddsoddi Cyfrifol a stiwardiaeth, un o'r rhesymau y tu ôl i benodiad parhaus yr Ymgynghorydd. Mae rôl Hymans Robertson yn cwmpasu goruchwyllo a rhoi cyngor ar drefniadau llywodraethu, gwasanaethau gweithredwr, agweddau buddsoddi strategol a chymorth gyda rheoli prosiectau. Mae Hymans Robertson yn mynychu holl gyfarfodydd y Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu yn ogystal â darparu mewnbwn arbenigol i RISG.

Mae tîm Hymans Robertson sy'n cefnogi Partneriaeth Pensiwn Cymru ar faterion Buddsoddi Cyfrifol yn cynnwys pedwar person, gan gynnwys Pennaeth Buddsoddiad Cyfrifol y cwmni, tra bod tîm ehangach yn darparu cefnogaeth ar draws ystod o feysydd ychwanegol. Mae hyn yn cynnig lefel eang o gefnogaeth arbenigol i PPC wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth Buddsoddi Cyfrifol PPC, gyda PPC yn gallu elwa ar gyfoeth o adnoddau Hymans Robertson yn ôl yr angen.

Gosodir amcanion unigol i weithwyr Hymans Robertson fel rhan o gynllun datblygu gyrfa barhaus. Mae hyn yn cysylltu'n uniongyrchol â chydabyddiaeth ariannol, gan gynnwys elfen o dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad i ymgynghorwyr. Mae gan y rheiny sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda PPC a'r rheiny sydd â chyfrifoldeb mwy uniongyrchol am faterion Buddsoddi Cyfrifol, megis y tîm cymorth Buddsoddi Cyfrifol, amcanion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau i PPC ac felly maent yn cael eu cymell yn fwy uniongyrchol i sicrhau bod stiwardiaeth yn cael ei harfer.

Ar ddechrau'r flwyddyn adrodd, recriwtiodd Hymans Robertson adnodd ychwanegol yn uniongyrchol (Uwch Ddadansoddwr Buddsoddi Cyfrifol) i'w tîm Buddsoddi Cyfrifol i ddarparu cefnogaeth bwrpasol i PPC. Mae hyn yn cyd-fynd â'r model adnoddau allanol a ddefnyddir gan y PPC wrth gynnig mewnbwn arbenigol i gefnogi gweithredu stiwardiaeth. Mae'r adnodd hwn yn mynychu holl gyfarfodydd PPC ac mae hefyd wedi cynrychioli'r PPC mewn digwyddiadau allanol. Yn ogystal, mae'r adnodd yn cefnogi PPC o ran:

- Cysylltu â darparwyr gwasanaethau allanol a chraffu arnynt
- Casglu data a'r dadansoddiad manwl o bortffolios
- Nodi materion i'w trafod gan y RISG
- Adrodd parhaus i Awdurdodau Cyfansoddol sylfaenol ac adroddiadau allanol eraill
- Datblygu polisïau
- Hyfforddiant parhaus

Mae PPC yn credu bod yr adnodd ychwanegol hwn wedi gwella ei raglen stiwardiaeth ac wedi meithrin y cydweithio parhaus rhwng Awdurdodau Cyfansoddol. Mae dadansoddiad manylach bellach yn cael ei gynnal ar bortffolios ac mae trosglwyddo gwybodaeth i randdeiliaid wedi cynyddu.

bfinance: Ymgynghorydd Dyranwyr

Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ceisio arbenigedd ychwanegol yn ôl yr angen i gyflawni ein nodau. Un nod o'r fath fu datblygu Is-gronfeydd marchnadoedd preifat, lle nad oedd y sgiliau a ddymunir ar gael yn syth o fewn Darparwyr Gwasanaethau presennol. Er mwyn helpu i nodi darparwyr priodol ar gyfer pob un o'r Is-gronfeydd, penododd Partneriaeth Pensiwn Cymru bfinance, sydd wedi gweithio ar y cyd â Hymans Robertson a Phartneriaeth Pensiwn Cymru i gynnal ymarferion caffael yn y marchnadoedd hyn. Trwy ddewis bfinance fel Ymgynghorydd Caffael a'r ymarferion caffael dilynol mae ystyriaeth i faterion cynaliadwyedd wedi'i chynnwys, gan ganiatáu i Partneriaeth Pensiwn Cymru ddefnyddio arbenigedd bfinance a Hymans Robertson.

Gwnaed y penodiadau canlynol gan y PPC yn ystod y flwyddyn, gyda gwaith yn cael ei wneud wedyn i ffurfioli'r trefniadau buddsoddi. Er na gwblhawyd y strwythurau Is-Gronfa perthnasol ar gyfer pob dosbarth o asedau yn ystod y flwyddyn, gwnaed buddsoddiadau mewn Dyled Breifat a Seilwaith yn dilyn diwedd y flwyddyn.

Dosbarth o Asedau	Apwyntiadau rheolwr / dyrannwr
Ecwiti Preifat	Schroders
Seilwaith	Rhaglen Ben-gaead: GCM Grosvenor Rhaglen Ben-agored: Cronfa Seilwaith Byd-eang CBRE; Cronfa Seilwaith Byd-eang IFM; Octopus Renewables Infrastructure SCSp
Dyled Breifat	Russell Investments

Mae bfinance hefyd yn cefnogi PPC i gaffael dyrannwr/rheolwr eiddo tiriog, gyda disgwyl i'r penodiad gael ei wneud yn ystod blwyddyn 2023/24.

Asesu a datblygu'r strwythur llywodraethu

Tra bod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gredu bod ein dull presennol yn gwasanaethu anghenion ein rhanddeiliaid, rhoddir ystyriaeth reolaidd i feysydd lle byddai modd gwella'r dull gweithredu. Ymhlith y meysydd lle gwnaed newidiadau er mwyn gwella'r canlyniadau i randdeiliaid dros y flwyddyn roedd ychwanegu cymorth Buddsoddi Cyfrifol pwrpasol i gefnogi'r gwaith o ddarparu goruchwyliaeth stiwardiaeth, tra gwnaed rhywfaint o fireinio i amllder cyfarfodydd RISG ar gyfer y flwyddyn 2023/24.

Meithrin gwybodaeth a sgiliau

Mae natur strwythur llywodraethu Partneriaeth Pensiwn Cymru sy'n allanol i raddau helaeth yn golygu bod modd allanoli datblygiad gwybodaeth a sgiliau, gyda'r Bartneriaeth yn gallu defnyddio'r arbenigedd datblygol hwn yn ôl yr angen. Mae defnyddio ystod o ddarparwyr allanol hefyd yn caniatáu i'r Bartneriaeth ddefnyddio'r wybodaeth arbenigol hon wrth ddarparu hyfforddiant.

Gan ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn paratoi ac yn cyflwyno rhaglen hyfforddi flynyddol i'n rhanddeiliaid, a chaiff y manylion eu cyhoeddi ar wefan y Bartneriaeth yma. Darperir yr hyfforddiant hwn gan Ddarparwyr Gwasanaeth presennol Partneriaeth Pensiwn Cymru a chan bartïon eraill, sy'n cynnig yr arbenigedd angenrheidiol.

Yn ystod y flwyddyn, darparwyd hyfforddiant ar faterion yn cynnwys:

- Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy (darparwyd gan Russell Investments)
- Marchnadoedd preifat (Russell Investments, GCM Grosvenor)
- Gwybodaeth am y Gronfa: Llywodraethu a gweinyddu PPC (Hymans Robertson)
- Beth mae Buddsoddi Cyfrifol yn ei olygu i PPC (Hymans Robertson, Russell Investments)
- Benthycu Gwarannau (Northern Trust)
- Cynnydd Cronfeydd Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol eraill a Chyfleoedd Cydweithio (DLUHC, LCIV, LGA, Hymans Robertson)

Mae'r dull hwn o hyfforddi yn sicrhau bod y rheiny sy'n gwneud penderfyniadau a rhanddeiliaid eraill yn cael gwybod am y materion sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru a hynny hefyd gan gynnig y cyfle i ymgysylltu â darparwyr a'u holi. Mae pob sesiwn hyfforddi fel arfer yn denu mwy na 60 o randdeiliaid unigol o bob rhan o PPC, gan ategu'r hyfforddiant a drefnir gan Awdurdodau Cyfansoddol ar lefel leol a chefnogi ymarfer stiwardiaeth ar draws asedau PPC.

Gwrthdaro buddiannau

Mae Awdurdodau Cyfansoddol Partneriaeth Pensiwn Cymru bob amser wedi gorfod adnabod, rheoli a monitro gwrthdaro buddiannau. Mae'r broses o gyfuno Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol wedi golygu bod Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn gorfod delio â gwrthdaro buddiannau. Mae hyn yn adlewyrchu'n syml y ffaith y bydd gan bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru amrywiaeth o rolau a chyfrifoldebau eraill, er enghraifft, fel aelodau o gronfeydd sylfaenol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu fel ymgynghorydd i fwy nag un o Awdurdodau Cyfansoddol y Partneriaeth.

Manylir ar ddull Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdaro buddiannau yn y [Polisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau](#). Lluniwyd y Polisi hwn i arddangos ein hymrwymiad i adnabod, rheoli a monitro achosion o wrthdaro buddiannau. Egwyddorion allweddol ffordd Partneriaeth Pensiwn Cymru o reoli gwrthdrawiadau yw:

- **Adnabod:** dylai partïon fod yn flaengar yn eu hymagwedd tuag at reoli unrhyw wrthdaro buddiannau sy'n codi
- **Cydnabod:** rhaid i bartïon gydnabod unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Datgelu:** dylai partïon fod yn agored gyda'i gilydd am unrhyw wrthdaro buddiannau a allai fod ganddynt
- **Rheoli:** dylai partïon weithio i fabwysiadu datrysiadau ymarferol i wrthdaro buddiannau lle bynnag y bo modd

Mabwysiadodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ddiffiniad o wrthdaro buddiannau sy'n cynnwys gwrthdaro buddiannau posibl, tybiedig a gwirioneddol. Mae'r Bartneriaeth yn deall na fydd efallai'n bosibl adnabod, rheoli a monitro pob gwrthdaro buddiannau posibl a thybiedig; fodd bynnag, bydd yn ymdrechu i wneud hynny lle bynnag y modd. Mae'r Polisi hwn wedi'i fwriadu i ddarparu canllawiau i bersonél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru, gyda'r nod o sicrhau nad yw personél a darparwyr y Bartneriaeth yn ymddwyn yn amhriodol. Datblygwyd y polisi hwn gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru mewn ymgynghoriad â'r Awdurdodau Cyfansoddol.

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru ddyletswydd ymddiriedol a chyfreithiol i weithredu er budd pennaf rhanddeiliaid a buddiolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru. Nid yw hyn yn atal personél a darparwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru rhag cael rolau neu gyfrifoldebau eraill a allai arwain at wrthdaro buddiannau.

Darparwyr allanol

Fel rhan o'i Pholisi Gweithdrefnau a Gwrthdaro Buddiannau, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gallai defnyddio darparwyr allanol fod yn ffynhonnell gwrthdaro ac mae felly wedi sicrhau bod gan ei Darparwyr Gwasanaeth eu polisïau gwrthdaro eu hunain ar waith.

Russell Investments

Bu Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod gwrthdaro buddiannau posibl a allai fod wedi codi dros y flwyddyn fel stiwardiaid cyfalaf. Fel rheolwyr buddsoddi, cadarnhaodd Russell y gallai fod ganddynt wrthdaro buddiannau strwythurol sy'n hysbys ac y mae'n rhaid eu rheoli, megis cael eu talu yn seiliedig ar lefelau asedau dan reolaeth (AUM).

Gan ei fod yn ymwneud yn benodol â Phartneriaeth Pensiwn Cymru, mae Russell bob amser wedi sicrhau fod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn cael ei reoli'n effeithiol, yn unol â'r Côt Ymddygiad Byd-eang. Fel rhan o hyn mae gan Russell strwythur ffioedd cost a mwy ei le, sy'n caniatáu i arbedion cost sylfaenol dros amser gael eu trosglwyddo'n ôl i'r Bartneriaeth. Mae Russell yn nodi hefyd nad ydynt yn rhedeg unrhyw arian yn fewnol ar gyfer y Bartneriaeth, sy'n cael gwared â ffynhonnell gwrthdaro posibl.

Mae Russell yn rheoli gwrthdaro buddiannau yn unol â'r gofynion rheoleiddio ac yn ddarostyngedig i'r [Polisi Gwrthdaro Buddiannau](#).

Mae Bwrdd pob Cwmni Grŵp EMEA Russell Investments yn goruchwyllo gweithredu trefniadau i sicrhau bod Russell yn cydymffurfio â'r gofynion rheoleiddio a chyfreithiol mewn perthynas â gwrthdaro buddiannau. Mae EMEA Compliance yn cynnal map gwrthdaro buddiannau ar gyfer pob un o'r cwmnïau sy'n gweithredu yn EMEA. Os nodir gwrthdaro newydd, cyfrifoldeb y busnes yw adrodd hyn wrth EMEA Compliance, a fydd yn gweithio gyda'r busnes i gofrestru'r gwrthdaro yn y map perthnasol. Ar sail chwarterol (ac ad-hoc yn ôl y gofyn), mae Gweithgor Gwrthdaro Buddiannau yn ystyried ac yn trafod pob gwrthdaro buddiannau posibl a gwirioneddol sy'n codi mewn perthynas â gweithgareddau busnes. Mae'r gweithgor

hefyd yn trafod ffyrdd o reoli'r gwrthdaro buddiannau hwnnw. Os nad yw rheoli gwrthdaro buddiannau yn bosibl, bydd y gweithgor yn penderfynu ar fath a maint y datgeliad sydd ei angen o ganlyniad.

Ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau o ran Partneriaeth Pensiwn Cymru dros y flwyddyn adrodd hon.

Robeco

Mae Polisi Stiwardiaeth Robeco yn amlinellu eu dull o adnabod a rheoli gwrthdaro buddiannau. Mae'r dull hwn yn seiliedig ar 'Weithdrefn Gwrthdaro Buddiannau' Robeco a'r 'Rheoliadau ynghylch Trafodion Buddsoddi Preifat'. Enghreifftiau o wrthdaro buddiannau a allai godi yn gysylltiedig â gweithgareddau stiwardiaeth Robeco yw:

- Cwmni sy'n cael ei ddewis ar gyfer ymgysylltu neu sy'n gysylltiedig â'i riant gwmni neu is-gwmniau cysylltiedig
- Mae gan Robeco hawliau pleidleisio mewn cwmni sy'n gysylltiedig â'i riant gwmni neu is-gwmniau cysylltiedig.
- Mae gwahanol gleientiaid yn ffafrio gwahanol ffyrdd o ymgysylltu.

Rhag ofn y gallai perthynas fusnes fygwth gwrthrychedd neu natur gweithgareddau stiwardiaeth, ymgynghorir ag adran gydymffurfio Robeco. Os oes angen dilyn gweithgareddau Pleidleisio ac Ymgysylltu ar ôl ymgynghori ag adran gydymffurfio Robeco, caiff gwahanol randdeiliaid eu hysbysu gan gynnwys Pwyllgor Gweithredol Robeco a Phartneriaeth Pensiwn Cymru.

Yn ystod y flwyddyn adrodd, ni nodwyd unrhyw wrthdaro buddiannau.

Hymans Robertson

Mae gan Hymans Robertson bolisi gorfodol ar gyfer rheoli gwrthdaro buddiannau ar draws holl gwmniau'r grŵp y mae disgwyl i'w staff ei ddilyn. Gall gwrthdaro buddiannau godi pan gyflogir Hymans Robertson i ddarparu cyngor buddsoddi i un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yng Nghymru, wrth hefyd ddarparu cyngor i Bartneriaeth Pensiwn Cymru ar yr un pryd.


Mae nifer o berthnasoddd ymgynghorol o'r fath eisoes yn bodoli ac maent wedi'u datgelu i bob parti. Rheolir y gwrthdaro yn barhaus trwy sicrhau nad yw'r timau sy'n cynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am y cyngor parhaus a roddir i Awdurdodau Cyfansoddol unigol. Pan roddir unrhyw gyfarwyddiadau newydd, mae Hymans Robertson wedi rhoi gwybod i Bartneriaeth Pensiwn Cymru a'r parti perthnasol am y gwrthdaro buddiannau posib.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd Hymans Robertson i fod wedi'i benodi'n ymgynghorydd buddsoddi i ddau o'r wyth Awdurdod Cyfansoddol. Roedd y timau oedd yn gyfrifol am gynghori pob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol yn parhau i fod yn wahanol i'r tîm oedd yn gweithio gyda Phartneriaeth Pensiwn Cymru. Ar hyn o bryd mae Hymans Robertson yn cynnal ymarfer mapio ar waith y mae'n ei wneud ar gyfer PPC ac unrhyw un o'r cronfeydd CPLIL sylfaenol (ad hoc, fel ymgynghorydd, fel actiwari), er mwyn deall a nodi unrhyw wrthdaro buddiannau posibl yn well.

Polisiau, monitro ac adolygu

Ein fframwaith polisi

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru nifer o [bolisiau](#) sy'n rheoli'r ffordd yr ydym yn gweithredu Is-gronfeydd ac yn ymarfer stiwardiaeth dros ein hasedau. Dangosir hyn isod.



O fewn y strwythur hwn, mae dwy agwedd yn berthnasol i asedau'r Bartneriaeth:

- Mae'r egwyddorion cyffredinol yn penderfynu sut y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl i'r Is-gronfeydd gael eu gweithredu, ac maent hefyd yn llywio gweithgarwch Partneriaeth Pensiwn Cymru a'n Darparwyr Gwasanaethau.
- Mae'r polisiau buddsoddi yn llywio'r modd y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymarfer stiwardiaeth.

Nodwn ychwanegu tri pholisi llywodraethu dros y cyfnod adrodd: Cynllun Dilyniant Busnes; Polisi Cwynion; a Pholisi Datgelu Camarfer. Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i ymagwedd PPC tuag at stiwardiaeth, mae'r Cynllun Dilyniant Busnes serch hynny yn cydnabod cyfrifoldeb trydydd partion wrth ddarparu gwasanaethau allweddol i PPC (gan gynnwys gwasanaethau stiwardiaeth) ac felly mae'n disgwyl i gynllun dilyniant busnes addas fod ar waith ar gyfer pob Darparwr Gwasanaeth.

Mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru dri pholisi ar waith sy'n rheoli'n uniongyrchol ein hagwedd at stiwardiaeth: Polisi Buddsoddi Cyfrifol; Polisi Risg Hinsawdd; a Pholisi Pleidleisio.

Adolygu a diweddarau ein polisiau

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu ein polisiau bob blwyddyn, ond yn cydnabod bod gwahanol lefelau o adolygu yn briodol. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd PPC adolygiadau ysgafn o'r tri pholisi. Ar hyn o bryd, mae'r polisiau'n cael eu hadolygu ar wahanol adegau o'r flwyddyn. Fodd bynnag, er mwyn alinio'r adolygiadau hyn yn well, dros y flwyddyn, gwnaed y penderfyniad i adolygu'r tri pholisi drwy gyd-ddigwyddiad ym mis Ebrill bob blwyddyn, gyda'r adolygiad manwl nesaf i fod i gael ei gynnal yn 2024.

Cynhaliodd Hymans Robertson adolygiad blynyddol o'r polisi Buddsoddi Cyfrifol ym mis Hydref 2022, a gymeradwywyd yn ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Rhagfyr 2022. Adolygiad ysgafn oedd yn gyffredinol, er bod rhai diweddariadau wedi'u gwneud i'r polisi, yn fwyaf nodedig ychwanegu adran ar hawliau dynol. O ran hyn, mae PPC yn

cydnabod pwysigrwydd y Gronfa i ymgysylltu â dyroddwyr ar hawliau dynol, gan ddisgwyl i ddyroddwyr gadw at safonau hawliau dynol normadol, ac i fonitro risg hawliau dynol nid yn unig yn fewnol ond hefyd o fewn eu cadwyni cyflenwi. Bellach mae disgwyl i PPC adrodd ar faterion hawliau dynol yn flynyddol, gyda'r adroddiad cyntaf i fod i gael ei gyhoeddi yn 2024.

Cynhaliwyd adolygiad ysgafn tebyg o'r Polisi Risg Hinsawdd ym mis Ebrill 2022 a'i gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyd-bwyllgor Llywodraethu ym mis Gorffennaf 2022. Roedd rhan o'r adolygiad yn cynnwys geiriad ychwanegol ynghylch disgwyliad PPC o'i Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, cryfhau nodau stiwardiaeth ynghylch risg hinsawdd y tu hwnt i adrodd yn unig, i gynnwys ymgysylltu â dyroddwyr ar lunio cynlluniau pontio sy'n cyd-fynd â nodau Cytundeb Paris. Disgwylir i gwblhau'r Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan yn ystod blwyddyn 2023/24 lywio'r adolygiad nesaf o Bolisi Risg Hinsawdd PPC yn sylweddol.

Mae [Polisi Pleidleisio](#) PPC ei hun yn ymgorffori Polisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Mewnol Robeco (sydd wedi'i gynnwys ym [Mholisi Stiwardiaeth Robeco](#)) yn uniongyrchol, gan y bernir bod hyn yn cyd-fynd yn uniongyrchol â disgwyliadau'r PPC ei hun. Gan RISG y mae'r cyfrifoldeb am adolygu newidiadau i Bolisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Mewnol Robeco, gydag unrhyw bryder o bwys yn cael ei chyfathrebu i'r Gweithgor Swyddogion a'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu i'w hystyried lle bo hynny'n briodol.

Cwblhaodd y RISG adolygiad o ddiweddariad Rhagfyr 2022 i Bolisi Pleidleisio trwy Ddirprwy Mewnol Robeco a nododd y newidiadau canlynol:

- ✓ **Bwrdd y Cyfarwyddwyr:** Cryfhodd Robeco y geiriad ar enwebiadau'r Bwrdd, gan ychwanegu at y rhestr o achosion pan na fyddent yn pleidleisio dros Gyfarwyddwyr Bwrdd a enwebwyd i'r pwyllgor enwebiadau a/neu'r pwyllgor cydnabyddiaeth ariannol; gyda'r ychwanegiad na fyddant yn gwneud hynny mewn achosion pan nad oes gan y Pwyllgor Gadeirydd annibynnol.

Ystyriwyd y newid hwn i gryfhau Themâu *Stiwardiaeth PPC Cefnogi Pobl a Chyflawni Canlyniadau Cynaliadwy (Llywodraethu)*.

- ✓ **Cydnabyddiaeth Ariannol:** yn flaenorol, byddai Robeco yn pleidleisio yn erbyn y polisi cydnabyddiaeth ariannol neu ei weithredu os nad oes darpariaethau adfachu ar waith ar gyfer y cynllun cymhelliant hirdymor. Fodd bynnag, mae gan hyn cafeat nawr, yn yr ystyr y bydd Robeco yn gwneud hynny oni bai bod y gyfraith yn cyfyngu ar wneud hynny.

Ystyriwyd y newid yn fân gyda darpariaethau cyffredinol yn parhau i adlewyrchu Thema Stiwardiaeth PPC *Cefnogi Pobl*.

- ✓ **Rheolaeth amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd:** Newidiodd Robeco eu disgwyliadau polisi a'u harferion pleidleisio yn sylweddol ynghylch newid yn yr hinsawdd, gyda'r polisi wedi'i ddiweddarw wedi'i gryfhau i ganolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar y newid i economi sero-net, y disgwyliadau i gwmnïau sy'n fwy agored i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd gael cynlluniau pontio mwy cadarn ac yn benodol y disgwyliadau i gwmnïau gael targedau allyriadau ar waith, strategaeth datgarboneiddio, datgeliadau priodol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a strwythur llywodraethu clir ar gyfer rheoli risgiau a chyfluoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Diweddarwyd y polisi hefyd i ehangu safbwynt Robeco ar ddarpariaethau 'Lleisio Barn ar yr Hinsawdd', gyda'r holl gynigion cyfranddalwyr sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd (Pensiynau Cyfranddeiliaid) i'w hasesu ar sail eu teilyngdod.

Mae'r newidiadau'n adlewyrchu'n uniongyrchol Thema Stiwardiaeth PPC *Canolbwyntio ar Sero Net*, yr ystyriwyd ei bod yn cyd-fynd yn dda â disgwyliadau PPC.

- ✓ **Rheoli risg datgoedwigo:** Mae Robeco wedi ychwanegu adran newydd ar gwmnïau sydd â chysylltiad uchel â nwyddau risg datgoedwigo (sef olew palmwydd, soi, cig eidion, a phren, papur a mwydion). Mae'r ychwanegiad yn disgwyl i gwmnïau o'r fath gymryd camau i fynd i'r afael â'r risgiau hynny, gyda Robeco yn gwrthwynebu eitemau agenda perthnasol pan nad oes polisïau a phrosesau digonol ar waith i fynd i'r afael â risgiau o'r fath. Mae Robeco hefyd yn amlinellu y bydd yn cefnogi Pensiynau Cyfranddeiliaid rhesymol sy'n gofyn am fwy o ddatgeliadau ar reoli risg bioamrywiaeth a chynigion sy'n gofyn i gwmnïau liniaru risgiau datgoedwigo.

Roedd yr ychwanegiad hwn yn adlewyrchu'r Thema Stiwardiaeth PPC *Canolbwyntio ar Sero Net*, gan dderbyn bod datgoedwigo a newid defnydd tir cysylltiedig yn cyfrannu at allyriadau carbon. Derbyniodd y RISG fod hyn yn ychwanegiad synhwyrol i'r polisi pleidleisio.

- ✓ **Rhoddion gwleidyddol a chyfraniadau lobïo:** Ychwanegodd Robeco ddisgwyliad polisi ar roddion gwleidyddol

a chyfraniadau lobïo, gan bwysleisio bod tryloywder corfforaethol yn allweddol wrth ddeall risgiau cyfreithiol, enw da a buddsoddi dilynol posibl a all godi o ddiffyg tryloywder ynghylch arferion lobïo a rhoddion gwleidyddol. Yn gyffredinol, byddai Pensiynau Cyfranddeiliaid diogel sy'n gofyn i gwmnïau adolygu eu gwariant gwleidyddol a'u gweithgareddau lobïo yn cael eu cefnogi.

Ystyriwyd bod y newid hwn yn cyd-fynd â Thema *Stiwardiaeth PPC Cyflawni Canlyniadau Cynaliadwy (Llywodraethu)*.

- ✓ **Pensiynau Cyfranddeiliaid sy'n cael eu cefnogi yn gyffredinol:** Mae Robeco wedi ychwanegu at y rhestr o Bensiynau Cyfranddeiliaid y byddai'n pleidleisio i'w cefnogi yn gyffredinol, gan nodi NA fyddai'n gyffredinol yn cefnogi Pensiynau Cyfranddeiliaid sy'n ceisio gwrthwynebu cynnydd pellach gan gwmnïau ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu perthnasol (a elwir yn gynigion 'gwrth-Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu').

Ystyriwyd bod y newid hwn yn cyd-fynd â Thema *Stiwardiaeth PPC Cyflawni Canlyniadau Cynaliadwy (Llywodraethu)*.

Roedd y RISG o'r farn bod yr holl newidiadau yn unol â'r disgwyliad ac yn derbyn yr adolygiad. Cymhwyswyd y newidiadau i Bolisi Pleidleisio PPC o ddechrau 2023.

Cynhaliwyd adolygiad manylach o Bolisi Pleidleisio PPC yn dilyn diwedd y flwyddyn, gan gydnabod yr angen am [Bolisi Stiwardiaeth](#) ehangach sy'n cyfleu gweithgaredd ymgysylltu Darparwyr Allanol PPC, yn unol â Themâu Stiwardiaeth PPC, ac mae hefyd yn sefydlu ein bwriad o ddatblygu Polisi Uwchgyfeirio cadarn. Byddwn yn adrodd ymhellach ar hyn yn ein datganiad nesaf.

Nid yw'n Polisi Pleidleisio yn berthnasol eto i gronfeydd a reolir yn oddefol lle mae'r darparwr goddefol yn gyfrifol am y gweithgarwch hwn ar hyn o bryd. Ailgychwynnwyd trafodaethau gyda BlackRock dros y flwyddyn, wrth gymhwyso'r Polisi Pleidleisio ar draws ystod cronfeydd ACS, sydd o fewn cwmphas ar gyfer Dewis Pleidleisio BlackRock. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi cael trafodaethau cychwynnol gyda BlackRock ar ymestyn y Polisi Pleidleisio i gronfeydd goddefol. Er nad yw'r dewis pleidleisio wedi'i weithredu eto, mae hwn yn parhau i fod yn faes blaenoriaeth i PPC, gyda thrafodaethau pellach yn digwydd ar ôl diwedd y flwyddyn. Rydym yn gobeithio adrodd ymhellach ar gynnydd yn ein cyflwyniad nesaf.

Adolygu ein polisi ar fenthycia gwarantau

Polisi PPC fu y caniateir benthycia gwarantau o fewn wyth o gronfeydd cyfunol a reolir yn weithredol gan PPC, ar draws ecwiti ac incwm sefydlog. Fodd bynnag, mae PPC wedi rhoi byffer o 5% ar waith yn ei threfniant benthycia, gan sicrhau bod ganddi o leiaf un safle ar gael bob amser i bleidleisio. Yn ogystal, nid oes mwy na 25% o gyfanswm asedau dan reolaeth (AUM) ar unrhyw un adeg yn cael eu hystyried yn fenthyciadwy. Mae PPC hefyd yn cadw'r hawl i adalw stoc, os oes angen, fel rhan o'n trefniadau benthycia stoc.

Wrth ddymuno cryfhau ei safle stiwardiaeth, yn benodol y gallu i arfer pleidleisio yn gyfan gwbl ar ei swyddi ecwiti, cynhaliodd PPC adolygiad manylach o'i bolisi benthycia stoc dros y flwyddyn adrodd. Roedd hyn yn cynnwys hyfforddiant gyda rhanddeiliaid ehangach PPC ar yr opsiynau sydd ar gael, gan gynnwys gweithredu adalw llawn neu adalw rhannol ar fenthycia stoc. Er bod y penderfyniad wedi'i wneud ar ôl diwedd y flwyddyn, mae'r Cyd-bwyllgor Llywodraethu wedi cytuno i weithredu datrysiad adalw dirprwyol drwy Link a Northern Trust, a fydd yn caniatáu i PPC bleidleisio ynghylch ei sefyllfa ecwiti gyfan ym mhob Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol / Cyfarfod Cyffredinol Gweithredol. Ystyriwyd bod y dull yn darparu'r cyfaddawd gorau rhwng cynhyrchu refeniw ac ymarfer stiwardiaeth.

Ystyriodd PPC hefyd arfer benthycia gwarantau cyn lansio ei Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy a phenderfynodd beidio â chaniatáu benthycia gwarantau o fewn yr Is-Gronfa hon ar y dechrau.

Monitro cydymffurfiaeth â'n polisiâu

Mae PPC yn monitro cydymffurfiaeth â'i bolisiâu allweddol bob blwyddyn. Gan weithio gyda'r Ymgynghorydd Goruchwylio, adolygodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ei gydymffurfiaeth â'i ymrwymadau yn y Polisiâu Buddsoddi Cyfrifol a Risg Hinsawdd yn ystod y flwyddyn. Cyhoeddodd Partneriaeth Pensiwn Cymru ganlyniad yr adolygiad hwn, gyda chrynodeb o'r asesiadau wedi'i gynnwys fel Atodiad 2. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod y gallwn barhau i wella ein prosesau ein hunain a'r ffordd yr ydym yn gwasanaethu ein holl randdeiliaid. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu y bydd y broses hon o adolygu a thryloywder parhaus yn gwella stiwardiaeth barhaus.

Wrth dynnu sylw at feysydd lle'r oedd cynnydd wedi'i wneud a'r camau a gymerwyd - mae'r manylion wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn - nododd yr adolygiadau hefyd rai meysydd lle nad oedd gwaith wedi symud ymlaen dros y flwyddyn. Y meysydd hyn oedd:

- **Cydweithio:** dylid ystyried a yw'r ymrwymiad i geisio mentrau a chydweithrediadau Buddsoddi Cyfrifol a arweinir gan fuddsoddwyr yn parhau i fod yn ymrwymiad parhaus rhesymol neu a ddylai cefnogaeth o'r fath gael ei ysgogi gan gynrychiolwyr PPC.

Fodd bynnag, mae'r PPC wedi ceisio esblygu ei Fframwaith Stiwardiaeth yn ystod y flwyddyn adrodd, fel y nodwyd yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, sy'n cynnig mwy o ffocws ar feysydd ar gyfer cydweithredu yn y dyfodol. Ymhellach, mae'r PPC yn dibynnu ar ei Ddarparwyr Gwasanaeth i nodi cyfleoedd addas ar gyfer cydweithio, er na nodwyd unrhyw un yn ffurfiol dros y flwyddyn. Wedi dweud hynny, mae'r PPC yn elwa o'r cydweithrediadau hynny y mae ei Ddarparwyr Gwasanaeth yn eu cyflawni.

- **Newid yn yr Hinsawdd:** Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd yn barhaus ar draws asedau a gaiff eu dal o fewn y Bartneriaeth i sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r risgiau hinsawdd posibl o fewn Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Er bod gwaith yn mynd rhagddo ar yr Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan dros y flwyddyn, nid yw'r PPC wedi cynnal dadansoddiad senario ar gyfer ei Is-Gronfeydd, yn enwedig o ystyried nad yw gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd wedi'u gosod yn ffurfiol eto ar gyfer cronfeydd CPLIL. Bydd PPC yn gweithio gydag Awdurdodau Cyfansoddol i ddarparu dadansoddiad o senarios hinsawdd pan fo angen hyn.

Dysgu o broses adrodd y Côd Stiwardiaeth

Ar ôl cyflwyno adroddiad Côt Stiwardiaeth 2021/22, cynhaliodd Partneriaeth Pensiwn Cymru adolygiad o'r hyn a ddysgwyd o'r broses adrodd gan dynnu sylw at gyfres o gamau y gallem eu cymryd i wella. Mae'r camau sydd wedi eu datblygu o ganlyniad i'r adolygiad hwn yn cynnwys:

- **Yr angen i ddarparu mwy o ddata ymgysylltu manwl, ar sail Is-gronfa yn ôl Is-Gronfa.** Mae'r PPC wedi gweithio i greu adroddiadau stiwardiaeth chwarterol ar gyfer ei Is-Gronfeydd, sydd bellach yn cael eu darparu i Awdurdodau Cyfansoddol. Roedd hyn yn cynnwys y Bartneriaeth yn gweithio gyda'i Ddarparwyr Gwasanaeth i greu offeryn i lunio a dadansoddi data stiwardiaeth.
- **Yr angen i fonitro ac adrodd ar y wybodaeth a'r arweiniad a ddarperir gan Fforwm Cronfeydd Pensiwn yr Awdurdodau Lleol.** Mae hyn bellach yn cael ei gynnwys yn y Fframwaith Stiwardiaeth ac fe'i cofnodir yn ffurfiol o fewn adroddiad chwarterol PPC.
- **Deall y risg yn yr hinsawdd o ran asedau PPC.** Mae hyn bellach wedi'i ymgorffori mewn adroddiadau chwarterol. Ymhellach, yn ystod y flwyddyn, comisiynodd PPC Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan, fel y nodir yn yr Astudiaeth Achos isod.
- **Ystyried sut mae stiwardiaeth yn cael ei chynnal yn y mandadau goddefol a sut y gellir cymhwyso'r Polisi Pleidleisio.** Cynhaliodd PPC adolygiad o arferion pleidleisio ei rheolwr goddefol dros y flwyddyn, gyda sgysiaid yn parhau ar sut i ymestyn y Polisi Pleidleisio.
- **Datblygu fframwaith stiwardiaeth ar gyfer dyranwyr/rheolwyr marchnadoedd preifat.** Yn dilyn eu penodiadau priodol, mae sgysiaid cychwynnol wedi digwydd gyda phob un o'r rheolwyr marchnadoedd preifat i ddeall eu prosesau stiwardiaeth yn well a sefydlu disgwyliadau adrodd. Disgwylir rhagor o waith ar hyn yn ystod blwyddyn adrodd 2023/24.

Mae'r broses o adolygu a nodi camau gwirioneddol i'w cymryd ymlaen yn dangos ymhellach ymrwymiad Partneriaeth Pensiwn Cymru i ddysgu a gwella ein prosesau stiwardiaeth. Wrth i asedau dan reolaeth (AUM) Partneriaeth Pensiwn Cymru barhau i gynyddu ac wrth i'r ystod o Is-gronfeydd ehangu, bydd y dull cysondeb hwn o weithredu ar draws pob darparwr yn hanfodol.

Astudiaeth achos: comisiynu'r Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan

Mae'r PPC wedi cydnabod yr angen i fynd i'r afael â risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, y pwnc sy'n cael ei godi mewn fforymau amrywiol, gan gynnwys Senedd Cymru. Cytunwyd gan randdeiliaid y byddai'n ddefnyddiol asesu'r cynnydd a wnaed gan y gwahanol Awdurdodau Cyfansoddol yn unigol ers dechrau cyfuno, ond hefyd i gael darlun cyfun o sut mae risg yn yr hinsawdd yn cael sylw ar draws holl asedau wyth cronfa CPLIL Cymru.

Comisiynwyd ymarfer i werthuso amlygiad i risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar 31 Mawrth 2019 a thair blynedd yn ddiweddarach yn 2022. Mae dadansoddiad manwl wedi'i wneud ar draws yr holl asedau ac mae adroddiad drafft wedi'i rannu a'i drafod gyda RISG ac OWG. Er bod yr adroddiad yn dal i gael ei gwblhau, rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn bwydo i mewn i ddatblygiad Polisi Risg Hinsawdd PPC yn 2024.

Sicrhau ein prosesau

Fel Ymgynghorydd Goruchwylio, mae Hymans Robertson yn cynnal adolygiadau cyfnodol o'r gwaith a wneir gan Russell, Link a Robeco, gan felly roi sicrwydd parhaus i PPC. O ystyried natur fanwl a'r cyfyngiadau amser angenrheidiol, yn ogystal â'r diffyg adnoddau mewnol sydd ar gael i gynnal yr adolygiadau hyn, mae angen adnoddau allanol i ddarparu'r swyddogaeth hon, swyddogaeth sy'n caniatáu i PPC sicrhau bod ei Ddarparwyr Gwasanaeth yn cyflawni amcanion.

Adolygu gweithgarwch stiwardiaeth

Er mwyn helpu i adolygu'r gweithgarwch stiwardiaeth a wneir ar ran PPC, ac i sicrhau bod meysydd ffocws yn bodloni nodau stiwardiaeth y Gronfa, mae Hymans Robertson yn darparu adroddiadau chwarterol ar ei weithgaredd Buddsoddi Cyfrifol gan Is-Gronfa. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r gwaith a wnaed gan Robeco dros y chwarter, yn ogystal ag unrhyw weithgaredd ymgysylltu ychwanegol gan Russell, gyda manylion ychwanegol ar bleidleisio ac ymgysylltu LAPFF.

Ar y pwynt olaf, gan ddymuno deall aliniad cyffredinol PPC â LAPFF yn well, cynhaliwyd adolygiad o'r holl rybuddion pleidleisio LAPFF a gyhoeddwyd dros y flwyddyn. Nodwyd, o ran yr Is-Gronfeydd gweithredol, fod PPC wedi pleidleisio yn unol â LAPFF y mwyafrif helaeth o'r amser (c.80%), gyda'r adolygiad hefyd yn cadarnhau bod cyfiawnhad clir dros yr achosion hynny lle nad oedd pleidleisio yn unol â LAPFF. Gobeithiwn y bydd y gwaith hwn hefyd yn bwydo i mewn i unrhyw esblygiad yn y Polisi Stiwardiaeth i'r mandadau goddefol.

Yn ogystal, eleni, gwnaethom sefydlu Fframwaith Stiwardiaeth. Er mai nod y fframwaith yw helpu i nodi Themâu Stiwardiaeth penodol i PPC, bydd y fframwaith hefyd yn cael ei ddefnyddio fel mecanwaith ar gyfer monitro ac adolygu gweithgarwch pleidleisio ac ymgysylltu yn fwy cyffredinol, er mwyn helpu i nodi bylchau a helpu i herio'r gwaith stiwardiaeth a wneir gan ddarparwyr gwasanaeth PPC. Roedd yr adolygiad a gynhaliwyd dros y flwyddyn adrodd yn helpu i nodi esblygiad posibl Themâu Stiwardiaeth presennol, yn ogystal â meysydd ffocws newydd posibl. Byddwn yn ystyried y gwaith hwn yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Adolygiadau Is-Gronfa

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiadau o dri o'r Is-gronfeydd (Cyfleoedd y DU, Credyd Byd-eang, Bondiau Llywodraeth Byd-eang). O ystyried argymhellion yn y flwyddyn adrodd flaenorol, ystyriodd yr adolygiad hefyd effaith y gwasanaeth Gweithredu Portffolio Manylach (troshaen carbon isel) ar un o'r Is-Gronfeydd. Er bod PPC yn sicr bod gweithredu'r Is-Gronfeydd hyn yn briodol yn gyffredinol ac yn unol â'r disgwyliadau, gwnaed nifer o argymhellion ynghylch arallgyfeirio ac ar gyfer monitro unrhyw newidiadau rheoli a wnaed gan Russell yn fwy manwl.

Ein buddsoddiadau

Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw hwyluso a darparu platfform cyfuno buddsoddiadau er mwyn gallu gweithredu buddiannau'r Awdurdodau Cyfansoddol. Mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn rhan o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, trefniant pensiwn agored â buddion wedi'u diffinio sydd â gornelion buddsoddi hirdymor. Tra bod y buddion sylfaenol a ddarperir gan y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gyffredin i bawb, mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn parhau i fod yn gyfrifol am ddatblygu strategaeth, gan roi ystyriaeth i'w polisiau eu hunain, eu sefyllfa ariannol a'u haelodaeth waelodol.


Felly mae gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru y dasg o ddarparu a rheoli cyfryngau buddsoddi y gall yr Awdurdodau Cyfansoddol weithredu eu strategaeth ddewisol trwyddynt.

Asedau dan reolaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ar ddiwedd mis Mawrth 2023, roedd naw Is-gronfa gyfunol weithredol, gyda chyfran yr asedau cyfunol yn parhau i fod tua 70% (gan gynnwys buddsoddiadau goddefol). Mae'r ystod o Is-gronfeydd a gynigir gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru yn rhoi'r cyfleoedd i'r Awdurdodau Cyfansoddol fodloni eu gofynion buddsoddi unigol. Mae pob Cronfa Bensiwn yn buddsoddi mewn o leiaf dwy Is-gronfa weithredol, gydag un Gronfa Bensiwn yn buddsoddi mewn cymaint â saith. Mae parhau i ddatblygu Is-gronfeydd yn rhan allweddol o gynllun gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru. Mae'n hanfodol bod trafodaethau parhaus yn digwydd gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol i sicrhau bod eu hanghenion buddsoddi'n cael eu diwallu.

Cyfunol weithredol	Awdurdodau Cyfansoddol sy'n cymryd rhan	Rheolwyr gwaelodol	Cyfanswm £m (2023)
Ecwiti: Marchnadoedd Datblygol	5	6	£354.6
Ecwiti: Twf Byd-eang	5	3	£3,274.2
Ecwiti: Cyfleoedd Byd-eang	6	8	£3,269.1
Ecwiti: Cyfleoedd y DU	2	5	£760.1
Incwm Gosod: Bondiau Ad-daliad Absoliwt	3	4	£559.1
Incwm Gosod: Credyd Byd-eang	4	4	£693.7
Incwm Gosod: Llywodraeth Fyd-eang	2	2	£481.4
Incwm Gosod: Credyd Aml-asedau	5	5	£655.2
Incwm Gosod: Credyd y DU	1	1	£520.7
Cyfunol goddefol	7	1	£5,074.4
Cyfanswm		37	£15,642.5

Regional distribution of actively managed assets



Ehangu'r ystod o Is-gronfeydd

Mae'r PPC wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn bodloni gofynion esblygol ei randdeiliaid trwy sicrhau bod ystod o Is-gronfeydd ar gael i bob Awdurdod Cyfansoddol sylfaenol yn y Gronfa. Mae'r dewis sydd ar gael wedi ehangu o'r ddau Is-Gronfa ecwiti byd-eang yn 2019, i 10 o Is-Gronfeydd sy'n rhychwantu dosbarthiadau asedau a daearyddiaeth. Mae'r PPC hefyd wedi dewis dyranwyr/rheolwyr ar gyfer detholiad o fandadau marchnadoedd preifat ar gyfer Awdurdodau Cyfansoddol yn dilyn diwedd y flwyddyn adrodd.

Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy

Yn dilyn ymgynghoriad helaeth â phob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol sylfaenol, parhaodd PPC i weithio gyda Russell, Link a Hymans Robertson ar ddatblygu a lansio'r Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy. Er iddo gael ei lansio'n ffurfiol yn dilyn diwedd y flwyddyn adrodd, mae pob un o'r wyth Cronfa CPLIL wedi eu dyrannu i'r Is-Gronfa, sef y cyfrwng cyntaf sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd ar gyfer PPC.

Arweiniwyd yr ymgynghoriad gydag Awdurdodau Cyfansoddol gan Russell i sefydlu'r paramedrau arweiniol ar gyfer rheoli'r Is-Gronfa yn gyntaf, a oedd yn cynnwys ystyried gwaharddiadau a nodau hinsawdd, ac wedi hynny dewis rheolwyr sylfaenol a'r strategaethau cynaliadwy cysylltiedig sy'n ffurfio'r Is-Gronfa. Mae'r paramedrau terfynol ar gyfer yr Is-Gronfa wedi'u rhestru isod.

Paramedr	Cwmpas
Gwahardd	Glo Thermol, Arfau Dadleuol, Gamblo, Tywod Olew, Olew a Nwy Arctig, Ynni Siâl, Tybaco, Adloniant i Oedolion, Olew Palmwydd, y rhai sydd wedi torri Compact Byd-eang y Cenhedloedd Unedig
Nodau Hinsawdd	Alinio Sero Net Ymgysylltu ar Allyriadau a Ariennir Allyriadau Carbon Cysylltiad ag Atebion Hinsawdd

Mae datblygu a lansio'r Is-Gronfa hon yn dangos natur gydweithredol PPC, ond hefyd gallu'r PPC i addasu i anghenion esblygol ei randdeiliaid, a oedd wedi nodi awydd o'r blaen i ddyrannu arian sy'n fwy cynaliadwy.

Marchnadoedd Preifat

Aeth y gwaith yn ei flaen ar lansio'r Is-Gronfeydd Marchnadoedd Preifat, gyda'r PPC yn gweithio gyda bfinance fel Ymgynghorydd Dyranwyr. Mae dyranwyr bellach wedi'u penodi ar gyfer mandadau Ecwiti Preifat, Dyled Breifat a Seilwaith. Mae'r broses o lansio'r Is-Gronfeydd wedi'u gohirio, er bod PPC yn disgwyl i hyn ddigwydd bellach dros 2023/24. Mae gwaith hefyd wedi datblygu ar benodi dyranwnr ar gyfer mandad eiddo tiriog. Rydym yn bwriadu ymdrin â lansio'r mandadau hyn a'n dull o stiwardiaeth yno yn ein hadroddiad yn 2024.

Datblygu ein His-gronfeydd presennol

Mae PPC yn parhau i chwilio am ffyrdd y gall leihau ei ôl troed carbon ar draws ei daliadau ecwiti. Yn dilyn llwyddiant y gorlif carbon isel o fewn yr Is-Gronfeydd Cyfleoedd Byd-eang a Marchnadoedd Datblygol, penderfynwyd gweithredu'r un amcan o fewn Is-Gronfa Cyfleoedd y DU. Mae Russell bellach yn orfodol i reoli'r Is-gronfa gydag ôl troed carbon 25% yn is na'r meincnod.


O fewn rheolaeth barhaus yr Is-gronfeydd, mae Russell wedi dirprwyo awdurdod i addasu'r grŵp o reolwyr ac wedi gwneud sawl newid o ran rheolwyr ar draws tair o'r Is-gronfeydd (Twf Byd-eang, Cyfleoedd Byd-eang, Credyd Byd-eang) yn ystod y flwyddyn. Mae gan PPC raglen fonitro ffurfiol i werthuso perfformiad yr Is-Gronfeydd ac effaith gweithgaredd dethol rheolwyr yn erbyn disgwyliadau, gan gynnwys metrigau cynaliadwyedd.

Astudiaeth achos: ychwanegu rheolwr at Is-Gronfa

Dros y flwyddyn, ychwanegwyd rheolwr newydd at yr Is-Gronfa Cyfleoedd Byd-eang, er mwyn cyd-fynd yn well â chredoau strategol PPC a'r safle a ffefrir ganddi. Ym marn Russell, bydd ychwanegu'r rheolwr, o ystyried proses a strategaeth y rheolwr, yn arwain at ganlyniad carbon is i'r Is-Gronfa. Roedd ystyried materion ESG hefyd yn chwarae rhan yn y broses ddethol, gyda'r rheolwr yn safle 4 (allan o 5) yn fframwaith sgorio ESG mewnol Russell. Mae'r Is-gronfa hefyd yn cael ei nodi fel rhan o'r ymrwymiad sero-net cyffredinol, sy'n golygu y bydd allyriadau'n cael eu lleihau dros amser, gydag ystyriaethau aliniad, ymgysylltu ar allyriadau a ariennir a dod i gysylltiad ag atebion hinsawdd hefyd yn cael eu nodi.

Ein dull Buddsoddi Cyfrifol

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru o'r farn bod integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan gynnwys ystyried risgiau a chyfleoedd, mewn prosesau buddsoddi yn rhag-amod ar gyfer unrhyw strategaeth o ystyried y posibilrwydd o golli arian. Wrth i asedau cyfunol Partneriaeth Pensiwn Cymru gael eu rheoli'n allanol, mae'r Partneriaeth yn gosod disgwyliadau ar sut y dylid rheoli asedau gyda Russell i sicrhau bod safbwyntiau Buddsoddi Cyfrifol, y modd y caiff



materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eu hintegreiddio a'r dull o reoli risg yn cyd-fynd â'i gilydd.

Russell Investments

Mae Russell yn integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ei broses fuddsoddi trwy werthuso rheolwyr buddsoddi a darparu datrysiadau buddsoddi perchnogol. Mae athroniaeth materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu Russell yn seiliedig ar bedwar cred:

- Mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn effeithio ar brisiau diogelwch
- Mae dealltwriaeth ddofn o'r modd y mae ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn effeithio ar brisiau diogelwch yn ychwanegu gwerth at broses fuddsoddi fedrus
- Mae gwreiddio ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ddiwylliant a phroses cwmni yn gwella'r tebygolrwydd o fuddsoddi hir a llwyddiannus
- Mae perchnogaeth weithredol yn arf effeithiol ar gyfer gwella canlyniadau buddsoddi

Mae Russell yn defnyddio mewnbynnau meintiol ac ansoddol i asesu ymwybyddiaeth rheolwr o faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a'r modd y mae'n integreiddio hyn. Yna defnyddir y mewnbynnau hyn i bennu safle, sy'n cyfrannu at safle cyffredinol y rheolwr. Mae'r fethodoleg sgorio yn cynnwys pedair sgôr:

- **Ymrwymiad i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:** Mae adnoddau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn gadarn ac yn cyd-fynd â'r broses fuddsoddi. Mae gan unigolion sy'n gyfrifol am faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu brofiad perthnasol ac maent yn fedrus. Mae amrywiaeth o ffynonellau ac offer data o ansawdd uchel ar gael i'r rheiny sy'n gwneud penderfyniadau buddsoddi.
- **Ystyriaeth i faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:** mae ymwybyddiaeth gref o effaith risg ac ad-daliad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn amlwg. Mae'r ehangder a'r dyfnder persbectif yn well na chymheiriaid. Mae'r dealltwriaeth yn deillio o ymchwil cynradd ac yn cael ei gwahaniaethu.
- **Gweithredu materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:** Caiff dealltwriaeth o ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ei throsi'n effeithiol a chysylltu wrth bennu safle portfolios. Mae'r

rheolwr yn dangos yn glir sut y mae safle'r portffolios yn adlewyrchu'r modd y caiff y gyrwyr risg ac ad-daliad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu perthnasol eu rheoli.

- **Perchnogaeth Weithredol:** Mae tryloywder, ansawdd a hyd yr ymgysylltu gyda chwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn rhagori'n gyson ar gronfeydd tebyg. Caiff mesuriadau llwyddiant eu datgan yn glir ac maent yn briodol. Mae canlyniadau Perchnogaeth Weithredol neu Asesiadau Effaith ar gael yn hwylus ac yn cael eu cofnodi. Lle bo'n berthnasol, ceisir gwneud defnydd gwybodus o brocsïau.

Er bod yr integreiddio hwn yn gyffredinol yn gyson ar draws dosbarthiadau asedau a rhanbarthau, ceir enghreifftiau pryd y gall hyn fod yn wahanol:

- **Argaeledd ac ansawdd data:** gall amrywio ar draws dosbarthiadau a rhanbarthau asedau. Er enghraifft, nid yw dosbarthiadau asedau anhylif yn gallu defnyddio data mor helaeth ag mewn ecwitiai cyhoeddus, dyledion corfforaethol rhestredig a dyledion sofran. O ganlyniad, gall prosesau ddibynnu llai ar ddata yn y sefyllfaoedd hyn.
- **Cyfleoedd ar gyfer perchnogaeth weithredol:** gall ddibynnu ar ddosbarthiadau asedau a chyfyngau buddsoddi. Er enghraifft, mae natur tymor sefydlog a chontractiol buddsoddiadau bondiau yn rhoi nifer cyfyngedig o gyfleoedd ymgysylltu i wneud effaith eglur gyda dyroddwyr unigol. Mae'r cyfleoedd hyn yn aml yn fyr iawn cyn bod rhaid gwneud penderfyniad buddsoddi ac nid ydynt yn agored i bob parti, ond yn hytrach yn ôl disgrisiwn parodrwydd y dyroddwr i gymryd rhan yn y rhan fwyaf o achosion. Dirprwyir rheolaeth unrhyw hawliau sy'n gysylltiedig â gwarantau bond neu ddyledion i'r rheolwyr incwm sefydlog sylfaenol.

Mae portffolio incwm sefydlog Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys offerynnau incwm sefydlog sy'n cael eu masnachu'n gyhoeddus, lle mae'r telerau sy'n nodi unrhyw hawliau gan ddeiliaid bondiau fel arfer yn rhai generig. Wrth asesu rheolwr incwm sefydlog, mae Russell yn disgwyl i'r rheolwr gael dadansoddwr ymgysylltu incwm sefydlog pwrpasol a cheisio dylanwadu ar gorfforaethau ar adeg dyroddi bondiau. Er bod hawliau deiliaid bondiau yn dod yn bwysig os byth y bydd dyroddwr yn diffygdlu ei ddyled, yn ymarferol, mae rheolwyr Partneriaeth Pensiwn Cymru yn llawer mwy tebygol o werthu gwarantau mewn da bryd cyn diffygdlu yn hytrach na mynd trwy'r broses gyfreithiol sy'n ymwneud â dal bondiau sydd wedi mynd i ddiffygdlu.




- > The manager demonstrates **strong awareness** of the potential risk and return impacts of ESG issues on individual holdings and the portfolio structure
- > The manager can **clearly demonstrate** how portfolio positioning reflects the management of relevant ESG risks
- > The manager can **clearly demonstrate** how relevant ESG exposures can add value



- > The manager **does not demonstrate awareness** of potential risks and return impacts of ESG issues on portfolio holdings
- > **Meaningful discrepancies** between target ESG guidelines and portfolio holdings
- > Manager's perspective and analytical inputs on **ESG issues lack rigour**

Mae'r sgoriau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu a roddir i bob un o'r rheolwyr Is-gronfeydd gwaelodol yn cael eu crynhoi isod, o gymharu â dosbarthiad sgoriau yn 2022.



Ffynhonnell: Russell Investments

Mae PPC yn adolygu sut mae rheolwyr sylfaenol yn cael eu gwerthuso

Nododd PPC fod newidiadau i sgoriau ESG dau reolwr unigol, y ddau o fewn yr Is-Gronfa Marchnadoedd Datblygol, yn ystod y flwyddyn adrodd. Er nad oedd y naill na'r llall yn cynrychioli achos pryder ar unwaith, bydd y PPC yn parhau i adolygu dull Russell o ymgysylltu â'r rheolwyr sylfaenol.

- **Rheolwr A:** Symudodd Russell y rheolwr o safle 4 i 3. Roedd y symud safle hwn yn adlewyrchu diffyg buddsoddiad newydd y rheolwr mewn adnoddau mewn perthynas â chyfoedion (swyddogaeth o Asedau dan Reolaeth is a'r gallu i fuddsoddi, yn enwedig o ystyried y swm cynyddol o ddata a'r datgeliadau cysylltiedig sydd bellach ar gael). Bydd Russell yn parhau i fonitro ac ymgysylltu â'r rheolwr hwn ar adnoddau.
- **Rheolwr B:** Symudodd Russell y rheolwr o safle 5 i 4. Mae Russell yn canfod bod y rheolwr yn parhau i ddangos ymrwymiad i ESG, gan fabwysiadu signalau ymchwil newydd yn gyflym (gan gynnwys pileri ESG) gan eu rhoi ar y blaen i gyfoedion meintiol eraill mewn ymchwil a datblygiad ESG. Fodd bynnag, mae'r safle newydd hwn yn adlewyrchu cred Russell bod rheolwyr ar draws y bwrdd yn dod yn fwy medrus wrth asesu ac integreiddio gyrwyr ESG, tra bod signalau'r rheolwr hwn yn parhau i fod yn rhan gymharol fach o'u proses o'i gymharu â chasglwyr stoc â mwy o ffocws.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi nodi, eto, nad oedd unrhyw newidiadau yn sgôr y ddau reolwr a sgoriwyd fel 2 dros gyfnod y flwyddyn. Roedd y trafodaethau gyda Russell ar y pwynt hwn ynglŷn â pharhau i'w cynnwys yn tynnu sylw at y canlynol:

- **Rheolwr yn Is-gronfa Cyfleoedd y DU:** Mae Russell yn canfod bod y rheolwr yn is na'r cyfartaledd o gymharu â chymheiriaid ecwiti y DU wrth ymgorffori ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn y broses fuddsoddi, gyda'r rheolwr ddim yn cynnwys ffactorau cynaliadwyedd neu Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu mewn sgriniau neu arferion adeiladu portffolio yn eglur. Fodd bynnag, mae Russell wedi dynodi bod natur systematig a chynhenid ôl-edrychol proses fuddsoddi gyffredinol y rheolwr yn gwneud ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ychydig yn llai perthnasol i'r strategaeth hon nag y maent i rai o gymheiriaid ecwitiai'r DU - yn benodol felly'r rheiny y mae eu prosesau yn galw am farn fwy goddrychol a gorwelion buddsoddi hirach. Mae'r rheolwr wedi dweud ei fod ar hyn o bryd yn ystyried sut y gall fanteisio'n llawn ar blatfform ESG ac ymgysylltu'r cwmni ac wedi bachu ar y cyfle i ymuno ag ymrwymadau.
- **Rheolwr yn yr Is-gronfa Cyfleoedd Byd-eang:** nid yw'r rheolwr wedi ceisio integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn ystirlon yn y broses fuddsoddi. Fodd bynnag, mae Russell wedi cynghori bod y rheolwr yn rhedeg proses feintiol i raddau helaeth gyda nifer uchel o ddaliadau (wedi'u paru â throsiant sylweddol), gyda gyrwyr risg ac ad-daliad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu fel arfer heb berthnasedd mewn prosesau o'r fath.

Russell yn monitro risg mewn portffolios ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru

Ar gyfer pob dosbarth ased, caiff ystyriaethau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eu cynnwys yn eglur yn asesiad Russell o reolwyr allanol. Yn ogystal, ar gyfer ecwitiai, bondiau nad ydynt yn rhai'r llywodraeth, eiddo a seilwaith, mae

Russell hefyd yn cyfrifo cysylltiadau ar lefel portffolio a gynlluniwyd i fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r trawsnewid ynni, gan gynnwys allyriadau carbon, dod i gysylltiad â chronfeydd tanwydd ffosil a chysylltiad ag ynni adnewyddadwy, yn ogystal â dod i gysylltiad â set ehangach o faterion cynaliadwyedd fel y'u cipiwyd gan sgoriau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Ystyrir dwy sgôr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu:

- Sgôr Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu o Bwys Russell a ddatblygwyd yn fewnol, sy'n canolbwyntio ar y materion hynny ar gyfer pob cwmni a nodwyd eu bod o bwysigrwydd ariannol i'w fusnes gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo Cynaliadwyedd.
- Sustainability Risk Rating, sy'n mesur cysylltiad cwmni â risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu o bwys sy'n benodol i'r diwydiant a pha mor dda y mae'r cwmni'n rheoli'r risgiau hynny.

Mae rheolwyr portffolio Russell yn ceisio adnabod ac asesu risgiau cynaliadwyedd o bwysigrwydd ariannol yn barhaus o fewn portffolios. Nodir risgiau posibl gan ddefnyddio'r rhain a metrigau risg eraill sydd ar gael, ac wrth gyfathrebu â rheolwyr buddsoddi allanol. Os nodir risg bosibl yn ymwneud â chynaliadwyedd, bydd Russell yn adolygu gyrrwyr neu is-gydrannau unrhyw fetrigau y tu ôl i'r risg a amlygwyd, a allai arwain at drafodaeth fanylach gyda'r rheolwr buddsoddi allanol sy'n cefnogi'r daliad. Gall Russell hefyd weithio gyda Thîm Perchnogaeth Weithredol Russell i ystyried opsiynau ymgysylltu. Mae'r broses hon yn sicrhau bod asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gael eu rheoli yn unol â pholisiau mewnol Russell.

Astudiaeth achos: datblygu dadansoddi risg ac adrodd

Er mwyn mynd i'r afael ag anghenion rheoli portffolio sy'n datblygu, newidiadau rheoleiddiol, a dewisiadau cleientiaid, mae Russell Investments wedi parhau i hyrwyddo ei alluoedd ESG. Mae hyn wedi cynnwys newidiadau i'w system berchnogol, ExploreR, a'r defnydd o'i offeryn mewnol PARIS (System Buddsoddi Risg Dadansoddi Portffolio), sy'n darparu golwg aml-ased sy'n caniatáu ar gyfer dadansoddi dyraniadau, cysylltiad a risg. Mae'r offeryn yn perfformio dadansoddiad 'beth os' wrth werthuso newidiadau portffolio. Wrth ddatblygu'r gallu dadansoddi ymhellach, cyflwynodd Russell fodiwl ESG yn ddiweddar o fewn offeryn PARIS i ddarparu metrigau sy'n gysylltiedig ag ESG gan werthwyr blaenllaw fel MSCI, Sustainability a Planetrics. Mae'r offeryn bellach yn gydnaws ar draws portffolios ecwiti, incwm sefydlog ac aml-asedau.

Dros y cyfnod adrodd, rhyddhaodd Russell hefyd lwyfan mewnol (ENACT), a adeiladwyd i wella rhannu mewnwelediadau sy'n gysylltiedig ag ESG i gleientiaid. Mae ENACT yn caniatáu i aelodau'r tîm buddsoddi gofnodi a chyrchu'r mewnwelediadau sy'n gysylltiedig ag ESG sy'n cael eu casglu yn ystod goruchwyliaeth rheolwyr ac o weithgarwch ymgysylltu. Yn hollbwysig, mae ENACT yn mapio gwarantau cyhoeddwr ar draws Is-gronfeydd, gan alluogi cydgysylltu ar draws dosbarthiadau asedau, ac mae'n gweithredu fel llinell amser a marc cynnydd ar gyfer unrhyw amcanion ymgysylltu. Mae PPC yn teimlo bod gosod ac olrhain amcanion ymgysylltu penodol yn ddatblygiad i'w groesawu gan Russell ac mae'n cynrychioli arfer gorau'r rheolwyr.

Mae RISG yn ymgymryd â goruchwyliaeth a chraffu

Wrth weithredu model wedi'i allanoli, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gyfrifol am graffu'n uniongyrchol ar Ddarparwyr Gwasanaethau allweddol, ac mae Russell wedyn yn gyfrifol am oruchwyllo'n uniongyrchol y rheolwyr gwaelodol a gyflogir o fewn yr Is-gronfeydd. Caiff risgiau cynaliadwyedd o bwysigrwydd ariannol eu monitro gan Russell yn barhaus, fel yn achos unrhyw risgiau eraill. Mae Russell hefyd yn cynnal archwiliadau chwarterol gyda rheolwyr y portffolio gan gyfeirio at risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn goruchwyllo prosesau Russell ar stiwardiaeth ac integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.

Un o rolau parhaus yr Ymgynghorydd Goruchwyllo yw asesu rheolaeth yr Is-gronfeydd a phrofi'r prosesau a ddefnyddir. Wrth ymgymryd â'r ymarfer hwn, mae Hymans Robertson yn ymgymryd ag asesiad annibynnol o bob portffolio, gan dynnu sylw at feysydd cyfanredol ac unigol o risg i RISG. Caiff pob Is-gronfa ei hadolygu'n flynyddol, gydag o leiaf un adroddiad yn cael ei ddarparu ar o leiaf un Is-gronfa bob chwarter i sicrhau bod disgwyliadau buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael eu bodloni.

Mae'r gwaith monitro yn cwmpasu: risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys tueddiadau mewn allyriadau carbon; risgiau sy'n gysylltiedig â ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, gan gynnwys dod i gysylltiad â materion dadleuol; ac mae'n tynnu sylw at gwmnïau unigol o fewn portffolios a allai fod yn briodol i'w trafod ymhellach.

Fel rhan o'r gwaith o graffu ar reolwyr Is-gronfeydd sylfaenol, caiff unrhyw faterion sy'n peri pryder eu codi gyda Russell i'w trafod a'u hesbonio ymhellach. Lle bo'n briodol, bydd Russell hefyd yn cwrdd â Phartneriaeth Pensiwn Cymru i drafod materion sy'n peri pryder.

Eleni, dechreuodd PPC integreiddio monitro stiwardiaeth well o fewn yr asesiadau hyn, yn enwedig ar gyfer y cyhoeddwy'r hynny sy'n cynrychioli'r ESG neu'r risg hinsawdd uchaf. Mae mewnbwn gan Russell a Robeco wedi'i integreiddio i ddeall yn well y gwaith ymgysylltu sy'n cael ei wneud ar ran PPC. Mae'r cyhoeddwy'r hyn yn cael eu holrhain dros amser, i fonitro unrhyw newidiadau yn eu harferion a sgorio ESG, ac i ddeall unrhyw newidiadau mewn dyraniad yn well. Mae hyn wedi arwain at drafodaethau ar ddatblygu Polisi Uwchgyfeirio priodol.

Astudiaeth achos: Traciwr Risg Hinsawdd ac ESG

Fel rhan o waith monitro PPC, nodwyd bod cynhyrchwyr sment y farchnad ddatblygol yn gyfranwyr uchel i allyriadau carbon PPC. Gan nad yw'r enwau hyn wedi'u targedu i'w cynnwys yn rhaglen Perchnogaeth Weithredol Robeco, ymgysylltodd PPC â Russell i ddeall eu cynnwys yn y portffolio yn well, yn ogystal ag unrhyw ymrwymïadau y mae'r rheolwyr sylfaenol wedi'u cael gyda nhw.


Cydnabu'r rheolwyr fod sment, er ei fod yn ddwys o ran carbon, yn elfen hanfodol o ddatblygiad economaidd, seilwaith a thai a phrin yw'r deunyddiau posibl a allai gael eu defnyddio yn ei le o ran maint. Mae hyn yn golygu y bydd y rheolwr, yn hytrach na pheidio â'u cynnwys o fewn portffolios, yn targedu'r cwmnïau hynny sydd â'r gallu i fod yn arweinwyr mewn datrysiadau lleihau carbon trwy eu graddfa, mantolen a chynhyrchu llif arian. Ar hyn o bryd mae dau o'r cwmnïau hyn yn cael eu cynnwys gan y rheolwr yn yr Is-Gronfa Cyfleoedd Byd-eang. Mae'r rheolwr yn canfod bod y ddau yn buddsoddi'n sylweddol nid yn unig mewn datrysiadau tymor agos (ar gyfer effeithlonrwydd ynni, mewn gwres gweddilliol a chynhyrchu pŵer solar; hefyd yn cynyddu'r defnydd amgen o danwydd; a datblygu deunyddiau crai amgen), ond mewn atebion tymor hirach (megis dal a storio carbon), gan arwain y rheolwr i gredu y bydd targedau lleihau carbon yn cyflymu ac y bydd yr enw yn gallu dod â'i ddwysedd allyriadau yn unol â chyfoedion rhyngwladol.

Bydd PPC yn parhau i fonitro unrhyw gynnydd yn y cyhoeddwy'r hyn.

Darparwyr Gwasanaethau a stiwardiaeth

Er mwyn sicrhau bod gweithgareddau monitro ac ymgysylltu Darparwyr Gwasanaethau Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fod yn unol â gweithgareddau'r Bartneriaeth, mae'r Bartneriaeth yn olrhain yr ymgysylltu â Russell, Robeco a BlackRock mewn Log Stiwardiaeth. Mae'r log hwn yn ystyried unrhyw farn neu bryderon sydd wedi'u codi gan aelodau neu randdeiliaid eraill ac a gyflwynwyd yn unrhyw un o'r cyfarfodydd rheolaidd (yn fwyaf arbennig RISG). Ymhlith y sgysrsiau dros y cyfnod adrodd yr oedd:

- **BlackRock, Robeco, Russell, LAPFF:** roedd pryderon ynghylch torri hawliau dynol yn y Tiriogaethau Palesteinaidd a feddiannir (OPTs) yn parhau eleni. I'r perwyl hwn, yn dilyn gohebiaeth â LAPFF, roedd PPC yn awyddus i ddeall maint eu dyraniadau yno, yn ogystal ag unrhyw weithgarwch ymgysylltu neu bleidleisio a ddigwyddodd ar swyddi. Er bod dyraniadau i ddau o'r daliadau yn fach iawn o fewn yr Is-Gronfeydd gweithredol (gyda phleidleisio'n canolbwyntio ar benodiadau archwilwyr), gwnaethom nodi dyraniad o fewn y mandadau goddefol. Nododd trafodaethau gyda'r rheolwr goddefol ymgysylltu ag un o'r dyroddwyr dan sylw, ynghylch



lywodraethu a goruchwyllo, ond nodwyd diffyg ymgysylltu ar y gwaith parhaus o fewn yr OPT. Mae hwn yn parhau i fod yn faes sy'n peri pryder i PPC ac yn un y byddwn yn parhau i'w fonitro, gyda mewnbwn gan ein Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu ac ystyriaeth ar ymgysylltu ar y cyd trwy LAPFF.

- **Robeco a Russell:** Ymgysylltodd PPC mewn deialog gyda Robeco a Russell ar gyfarfod cyffredinol ychwanegol (EGM) arfaethedig ar gyfer rheolwr asedau mawr a gynhaliwyd o fewn Is-Gronfeydd PPC. Roedd natur y Cyfarfod Cyffredinol Ychwanegol yn ymwneud â chael gwared ar dri o gyfarwyddwyr y cwmni, ymateb uniongyrchol i bryderon ynghylch y polisi buddsoddi (yn unol â Thema Stiwardiaeth PPC ar Lywodraethu (cyflawni canlyniadau cynaliadwy)). Yn dilyn trafodaethau, ystyriwyd mai cam priodol fyddai pleidleisio i gael gwared ar un o'r gyfarwyddwyr (cadeirydd y bwrdd ar y pryd) dan sylw, i gael ei ddisodli gan gyfarwyddwr annibynnol.

Canlyniad allweddol y ddeialog hon oedd y cyfarwyddyd pleidleisio, gyda phenderfyniad PPC yn berthnasol i ganlyniad y bleidlais.

- **Robeco:** wrth gydnabod y dylid rhoi mwy o flaenoriaeth i bleidleisiau penodol (dadleuol) (yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â Themâu Stiwardiaeth PPC), dros y cyfnod adrodd, gwnaeth Robeco PPC yn ymwybodol o sut yr oedd yn bwriadu pleidleisio ar nifer o gynigion cyn pleidleisio. Roedd y rhain yn cynnwys: pleidleisiau o ran Lleisio Barn ar yr Hinsawdd a chynaliadwyedd ar gyfer banc Ewropeaidd; pleidlais ar gydnabyddiaeth ariannol weithredol (gormodol) mewn enw cyfryngau o'r Unol Daleithiau; penderfyniadau cyfranddalwyr ar allyriadau carbon a chynaliadwyedd, a phleidleisiau ar lywodraethu a chydabyddiaeth ariannol i gwmni technoleg o'r Unol Daleithiau; a phenderfyniadau cyfranddalwyr ar ddadansoddi senario hinsawdd ac arferion lloïo hinsawdd mewn cwmni mwyngloddio amlwladol. Ystyriodd PPC resymeg pleidleisio, cymerodd fewnbwn pellach gan ddarparwyr data a LAPFF, ac roedd o'r farn bod rhesymeg Robeco yn cyd-fynd â pholisïau PPC.

Integreiddio stiwardiaeth i Farchnadoedd Preifat

Yn ystod y flwyddyn adrodd, mae nifer o ddyranwyr marchnad breifat wedi cael eu penodi gan PPC o fewn Ecwiti Preifat, Seilwaith a Dyled Breifat. Fel y nodwyd yn gynharach, penodwyd bfinance gan PPC i gynnal ymarferion caffael gan ystyried Buddsoddi Cyfrifol yn ystyriaeth annatod o fewn y penodiadau.

Roedd Buddsoddi Cyfrifol yn ffactor wrth werthuso darparwyr posibl

Gan gydnabod credoau buddsoddi'r PPC, cafodd piler annibynnol i asesu dull pob darparwr o fynd i'r afael â materion Buddsoddi Cyfrifol ei hymgorffori wrth sgorio Cynigion Buddsoddi. Roedd hyn yn ystyried materion fel polisïau ac adnoddau ESG lefel cwmni, cefnogaeth i fentrau diwydiant, integreiddio materion ESG i'r broses fuddsoddi, mesur a lliniaru risgiau hinsawdd, ac ymgysylltiad ESG â rheolwyr sylfaenol. Neilltuwyd sgôr i ddarparwyr (allan o 5), gyda'r sgôr hon yn cyfrannu at y sgôr asesu gyffredinol.

Er nad oedd y PPC yn nodi gofynion cynaliadwyedd penodol yn ystod y broses gaffael, ceisiodd PPC ddeall sut y byddai darparwyr yn ystyried cynaliadwyedd yn y broses ddyrannu.

Mae PPC wedi dechrau gosod disgwyliadau o ran darparwyr

Ers ei phenodi, mae PPC, ar y cyd â'i Hymgyngorydd Goruchwyllo, wedi cynnal cyfarfodydd un-i-un gyda phob un o'r dyranwyr unigol i drafod ei gofynion stiwardiaeth ac adrodd, ac i gael dealltwriaeth fanylach o sut y gall pob darparwr weithio gyda PPC i sicrhau y gellir ymarfer lefel briodol o graffu. Rydym yn disgwyl i ddeialog o'r fath barhau wrth i ni nesáu at lansio ac rydym yn gobeithio cael diweddariad mwy ystyrlon yn ein cyflwyniad nesaf.

Mynd i'r afael â risgiau systemig

Mae dull buddsoddi Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnwys rheoli risg yn effeithiol, sydd, yn ein barn ni, hefyd yn rhan annatod o lywodraethu da. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod rheoli risg yn effeithiol – gan gynnwys strategaethau Buddsoddi Cyfrifol a lliniaru risg hinsawdd, ochr yn ochr ag ystyried a rheoli materion Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu ehangach – yn hanfodol ar gyfer sicrhau canlyniadau llwyddiannus i'n rhanddeiliaid. Mae dwy broses ar waith ar gyfer ystyried risg.

Mae ein His-grŵp Risg yn fforwm allweddol ar gyfer nodi risgiau


Fel y cyfryw, yn unol â'r Polisi Risg, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod, os cânt eu gadael heb eu rheoli, y gall risgiau effeithio ar allu'r Bartneriaeth (a'r Awdurdodau Cyfansoddol) i weithredu er budd pennaf ein rhanddeiliaid (a'r buddiolwyr), gyda llwyddiant y Bartneriaeth, i raddau, yn ddibynnol ar ein gallu i gydbwysu risg ac ad-daliad yn effeithiol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru felly'n cydnabod bod yn rhaid i strategaeth risg gadarn fod ar waith er mwyn cyflawni ein prif amcanion, gydag Is-grŵp Risg pwrpasol wedi'i sefydlu i gynnal a gwerthuso [Cofrestr Risg](#) Partneriaeth Pensiwn Cymru bob chwarter. Defnyddir y Gofrestr Risg i ddogfennu, rheoli a monitro risg trwy:

- Amlinellu prif risgiau a ffactorau Partneriaeth Pensiwn Cymru a allai gyfyngu ar ein gallu i gyflawni amcanion.
- Mesur difrifoldeb a thebygolrwydd y risg sy'n wynebu Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Crynhoi strategaethau rheoli risg Partneriaeth Pensiwn Cymru
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn, effeithiolrwydd strategaethau lliniaru risg presennol a'r gofyniad am fwy o strategaethau lliniaru risg

Mae gan yr Is-grŵp Risg rôl hanfodol wrth fynd ati i nodi'r risgiau presennol a'r rheiny a allai gael eu gwireddu yn y dyfodol, ac wrth asesu effeithiolrwydd mesurau lliniaru risg presennol – neu'r gofynion am fesurau ychwanegol o'r fath. Mae'r Is-grŵp Risg yn cyflwyno argymhellion, i'r Gweithgor Swyddogion, ar y camau y dylid eu cymryd i liniaru neu reoli risgiau ymhellach, ond nid yw'n gyfrifol am gyflawni'r camau a argymhellir.

Mae ein proses stiwardiaeth hefyd wedi esblygu i nodi risgiau a themâu sy'n dod i'r amlwg.

Dros y cyfnod adrodd, rydym wedi ailystyried y mecanwaith trwy'r hwn y mae PPC yn nodi'r materion sy'n bwysig i'w rhanddeiliaid ac y mae am gael dylanwad drostynt. Rydym wedi datblygu Fframwaith Stiwardiaeth newydd i gynorthwyo 'adnabod a blaenoriaethu themâu', rhywbeth yr ydym yn ei gwmpasu yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn, ac wedi sefydlu proses tri cham i gefnogi hyn, fel y dangosir isod:



Mae cam cyntaf y broses hon yn hollbwysig, gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau i asesu meysydd risg sy'n dod i'r amlwg. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys: themâu sy'n deillio o fonitro parhaus; mewnbwn gan y gymuned fuddsoddi ehangach; ac ymchwil bwrpasol arall. Trwy rannu mewnbwn gyda, a cheisio adborth gan, y sylfaen ehangach o rhanddeiliaid PPC, bydd y PPC yn casglu ystod eang o fewnbwnau a ffynonellau risg systemig posibl. Rhoddwyd y broses hon ar waith yn gynnar yn 2023 ac fe'i gweithredwyd yn ystod blwyddyn adrodd 2023/24.

Newid yn yr Hinsawdd

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru, ar y cyd â rhanddeiliaid eraill, yn ystyried newid yn yr hinsawdd fel risg systemig i'r Bartneriaeth ac i berfformiad buddsoddiadau'r Gronfa. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod risg hinsawdd o fewn y Gofrestr Risg ac wedi sefydlu Polisi Risg Hinsawdd, gan nodi dull y Bartneriaeth o fynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Hinsawdd hefyd yw un o'r tair thema stiwardiaeth a flaenoriaethwyd gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru. Mae gwerthusiad Partneriaeth Pensiwn Cymru o'n heffeithiolrwydd yn erbyn ein hymrwymadau polisi dros y 12 mis diwethaf wedi'i nodi yn Atodiad 2.

Mae'n parhau i fod yn bolisi PPC y dylai ein nod hinsawdd ein hunain adlewyrchu uchelgeisiau sylfaenol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Mewn trafodaethau unigol gyda phob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol dros y cyfnod adrodd, buom yn trafod disgwyliadau a nodau hinsawdd (yn unigol ac ar lefel y Gronfa). Ar hyn o bryd, nid yw pob Awdurdod Cyfansoddol wedi gosod nodau yn ffurfiol ar sero net, felly nid yw amcan pennaf Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'i ffurfio eto. Fodd bynnag, mae'r RISG yn parhau i fynd i'r afael â thrafodaethau ynghylch y pwynt hwn. Mae ystyriaeth ynghylch risg hinsawdd yn arbennig o amlwg wrth fframio'r Is-Gronfa Ecwiti Gweithredol Cynaliadwy, wrth ddatblygu'r mandadau marchnadoedd preifat a dechrau'r gwaith ar Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan dros y cyfnod adrodd.

Fel rhan o'r drefn fonitro barhaus, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro ystod o wahanol fetrigau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys metrigau allyriadau. Mae'r tabl isod yn nodi'r newid mewn Dwysedd Carbon Cyfartalog Pwysau (WACI) dros gyfnod 2022/23, gan nodi y bu gostyngiad cyffredinol ar draws yr holl Is-gronfeydd, er mai dim ond ychydig o fewn mandad y Marchnadoedd Datblygol. Byddem hefyd yn tynnu sylw yma at y gostyngiad amlwg yn y Cyfartaledd Pwysedig o ran Dwyster Carbon (WACI) ar gyfer Is-Gronfa Cyfleoedd y DU, gan adlewyrchu gweithrediad y droshaen carbon isel.

Is-gronfa	Dwysedd Carbon Cyfartalog wedi'i Bwysoli (gwerthiannau tCO ₂ /£m)	
	31.03.2022	31.03.2023
Cyfleoedd Byd-eang	117.4	109.4
Twf Byd-eang	80.6	69.6
Cyfleoedd y DU	104.3	86.8
Marchnadoedd Datblygol	238.3	227.9

Ffynhonnell: Hymans Robertson

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cydnabod bod hyn yn cynrychioli un mesur o risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ac mae wedi ymgysylltu â'r holl Awdurdodau Cyfansoddol er mwyn datblygu fframwaith y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru a Awdurdodau Cyfansoddol ei ddefnyddio i fesur risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, unwaith y bydd cronfeydd Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yn dod yn ddarostyngedig i ofynion TCFD yn ffurfiol. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwriadu cyhoeddi ei adroddiad TCFD ei hunain maes o law ac yn ystyried yr Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan fel prosiect rhagarweiniol.

Ymhlith y camau eraill y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi'u cymryd i ddatblygu'r ymagwedd tuag at risg hinsawdd dros y flwyddyn y mae:

- Symud ymlaen gyda datblygu'r Is-gronfa Ecwiti Cynaliadwy. Bydd paramedrau'r Is-gronfa hon yn cynnwys disgwyliadau ynghylch targed sero net, uchelgeisiau ynghylch lleihau risg carbon a gwahardd stociau mewn rhai sectorau. Bydd cwblhau'r Is-gronfa hon yn caniatáu i Awdurdodau Cyfansoddol fuddsoddi mewn datrysiadau hinsawdd posibl.
- Parhau i gefnogi gweithgarwch stiwardiaeth sydd â'r nod o ddatgarboneiddio. Fel y nodwyd yn yr adroddiad hwn, roedd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gefnogol i'r newidiadau i'n Polisi Pleidleisio (Stiwardiaeth) sylfaenol ac mae hefyd yn mynd ati i herio Robeco ar weithgarwch Pleidleisio ac Ymgysylltu ynghylch risgiau sy'n gysylltiedig â'r

hinsawdd fel y manylir yn yr adroddiad hwn.

- Symud ymlaen gydag ystyried y droshaen carbon isel bresennol ar Is-gronfeydd eraill, er na chafodd camau i gwblhau hyn eu cwblhau yn ystod y flwyddyn.

Aeth Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd ymlaen i benodi Dyranadau Marchnadoedd Preifat, gyda'r disgwyliad y bydd darparwyr yn hwyluso buddsoddiad mewn datrysiadau hinsawdd. Yn fwyaf nodedig, mae disgwyl i un o'r darparwyr a benodwyd - Octopus - hwyluso buddsoddiad mewn seilwaith ynni adnewyddadwy.

- **Mynd i'r afael â Thryloywder Treth:** Mae trethiant yn bwnc cynyddol ar gyfer dadl i reoleiddwyr ac fe'i hystyrir yn gynyddol fel pwnc Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu allweddol. Bydd y thema hon yn canolbwyntio ar wella tryloywder cwmnïau dros eu statws treth, a'r hyn y maent mewn gwirionedd yn ei dalu i lywodraethau'r gwledydd y maent yn gweithredu ynddynt.

Y broses ymgysylltu


Beth bynnag yw'r math o ymgysylltu, dilyniir proses CAMPUS bum cam wrth sefydlu amcanion ymgysylltu penodol (a mesuradwy).

Mae Robeco yn pennu amcanion ymgysylltu ar ddechrau'r broses ymgysylltu. Mae hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r cam ymchwil thema ymgysylltu, ac yn sicrhau bod ymgysylltu yn dechrau gyda dealltwriaeth drylwyr o bwysigrwydd y mater Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu dan sylw, perfformiad cyfredol y cwmni ar y mater a'i gysylltiad â'r mater, a'i berfformiad sylfaenol yn erbyn yr amcanion ymgysylltu a osodwyd. Bob tro y gwneir cyswllt â chwmni, mae Robeco yn trafod yr amcanion ymgysylltu ac yn asesu'r cynnydd y mae cwmni'n ei wneud tuag atynt. Mae'r broses hon yn rhoi sicrwydd i Bartneriaeth Pensiwn Cymru bod dull cadarn o arfer stiwardiaeth – ac, yn bwysig, un y gellir ei fonitro a'i adolygu – yn cael ei gymryd ar ran y Gronfa.

Fel arfer, mae ymgysylltu yn dechrau trwy esbonio'r amcanion i adran Cysylltiadau Buddsoddwr cwmni drwy e-bost, llythyr neu alwad ffôn, ac yna galwadau cynhadledd neu gyfarfodydd gydag arbenigwyr technegol. Enghreifftiau o arbenigwyr o'r fath yw'r Pennaeth Rheoli Risg, Pennaeth Cynaliadwyedd, Pennaeth Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi ac amrywiaeth eang o arbenigwyr gweithredol eraill. Defnyddir sioeau teithiol y cwmni pan fyddant ar gael. Gan amlaf, mae Robeco yn estyn allan i gwmnïau yn hytrach na'r ffordd arall. Mae uwch swyddogion gweithredol a rheolwyr anweithredol (Ysgrifennydd y Bwrdd, Cadeirydd, Prif Swyddog Ariannol, Prif Swyddog Gweithrediadau, neu Brif Swyddog Gweithredol) hefyd yn aml yn rhan o'n trafodaethau. Yn olaf, os nad yw Cysylltiadau Buddsoddwyr yn ymateb i wahoddiad i ymgysylltu, mae Robeco yn mynd at yr uwch-reolwyr yn uniongyrchol.





Ymgysylltu yn ystod 2022/23




Adroddir ar weithgarwch ymgysylltu ar gyfer y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023. Nodwn nad yw Robeco yn gwahaniaethu rhwng natur daliadau yn eu gweithgaredd ymgysylltu, o ystyried eu bod yn cynrychioli nifer o gleientiaid, dewisir dyroddwyr yn seiliedig ar thema, felly byddant yn cynnwys daliadau incwm sefydlog ac ecwiti.

O ystyried natur fyd-eang buddsoddiadau Partneriaeth Pensiwn Cymru, cynhaliwyd gweithgarwch ymgysylltu ar draws sawl rhanbarth, gyda'r gweithgarwch wedi'i rannu fel y dangosir uchod.

Ar ran Partneriaeth Pensiwn Cymru, cyflogodd Robeco nifer o wahanol lwybrau ar gyfer ymgysylltu, gan gynnwys galwadau cynhadledd, ysgrifennu llythyrau, negeseuon e-bost a phleidleisio gweithredol. Yn 2022/23 bu cyfanswm o 223 o ymgysylltiadau ar draws ystod eang o themâu fel y dangosir isod.



Fel y nodwyd uchod, mae'r themâu eang hyn yn cynnwys ystod o is-themâu ychwanegol, y gwnaed cynnydd amrywiol yn eu herbyn. Yn y tabl isod, rydym yn manylu ar bob thema, nifer y cwmnïau o fewn portffolios Partneriaeth Pensiwn Cymru yr aethpwyd ati i ymgysylltu â hwy ac yn rhoi rhyw arwydd o gynnydd yn erbyn pob thema (fel y mae ar ddiwedd Mawrth 2023). Mae'r siart hefyd yn nodi nifer y cwmnïau yr ymgysylltwyd â hwy o dan bob thema (dangosir y ffigur mewn cromfachau), gan nodi bod rhai cwmnïau'n cael eu cynnwys o dan sawl thema.



Ffynhonnell: Robeco

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn gwybodaeth sylweddol, gan gynnwys gwybodaeth ar bob thema a manylion y gweithgarwch a wneir bob blwyddyn. Rydym yn crynhoi pum thema isod sydd o ddiddordeb arbennig i PPC, o ystyried ein Themâu Stiwardiaeth a thrafodaethau eraill dros y flwyddyn.

Rheoli cylch bywyd mwyngloddio

Wrth anelu at gyflawni amcanion Cytundeb Paris, rhaid i'r byd gynyddu cynhyrchiant technolegau gwyrdd yn radical megis paneli solar, tyrbinau gwynt, batris a cherbydau trydan. Fodd bynnag, mae'r technolegau glân hyn hefyd yn llawer mwy dwys o ran mwynau, sy'n golygu cynnydd mewn gweithgareddau mwyngloddio, sy'n aml yn cael effeithiau negyddol ar yr amgylchedd a chymunedau lleol. Yn wir, mae achosion sydd wedi cael llawer o sylw o argaeau sorod yn methu yn amlygu nid yn unig canlyniadau difrifol y methiannau llywodraethu hyn o safbwynt amgylcheddol a hawliau dynol, ond hefyd y gost o ran enw da a'r gost economaidd i'r cwmnïau mwyngloddio eu hunain. Amcan yr ymgysylltu hwn felly oedd annog y cwmnïau mwyngloddio y mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn buddsoddi ynddynt i asesu, rheoli a lleihau eu hól troed amgylcheddol yn well. Roedd yr ymgysylltiad yn canolbwyntio ar dri phwnc: gwella arferion rheoli dŵr; cynyddu rheolaeth ar ddiogelwch argaeau sorod; a gwella cynllunio ymddeoliad asedau.

Daeth yr ymgysylltiad i ben yn 2023, gyda naw o'r 14 cwmni gwreiddiol yn ymgysylltu'n effeithiol. Un o uchafbwyntiau'r ymgysylltu oedd bod pump o'r cwmnïau yn gosod cynlluniau ar gyfer cau mwynfeydd, a oedd yn gydnabyddiaeth o'r angen am ymgynghori â rhanddeiliaid a deall pa ddefnydd fyddai'n cael ei wneud o'r tir ar ôl hynny.

Astudiaeth achos: Barrick Gold

Roedd Barrick Gold, cwmni mwyngloddio aur Canadaidd, yn un o'r dyroddwyr a oedd yn ymwneud â'r thema hon, a ddechreuodd gyda rhai pryderon ynghylch ymwybyddiaeth a rheolaeth peryglon dŵr y cyhoeddwr a mwyngloddiau diwedd oes. Trwy gydol yr ymgysylltiad, gwithodd Robeco Barrick Gold ar uchelgeisiolrwydd ei dargedau rheoli dŵr a chyfrifo dŵr, yn ogystal ag anfon llythyr i annog Cynllunio Ymddeoliad Asedau cryfach. Cafodd yr ymgysylltiad ei gau'n llwyddiannus ar ôl i Barrick osod, ymhlith eraill, darged grŵp ar ganran y dŵr wedi'i ailgylchu i'w ddefnyddio (o leiaf 80%), ac ar ddarparu data ar gyfrifeg dŵr ar lefel y cyfleuster. Ar ben hynny, mae'r cwmni wedi sefydlu cynlluniau cau ar gyfer ei holl fwyngloddiau cyn y gwaith adeiladu, gan gynnwys adfer yr ardal gyfagos a diogelu adnoddau dŵr.

O'r 14 cwmni a gymerodd ran i ddechrau, cafodd naw eu cau yn effeithiol a chafodd un ymgysylltiad ei gau fel un aneffeithiol. Yn ogystal, cafodd pedwar cwmni eu tynnu o'r rhaglen: dau mewn perthynas â'r gwrthdaro rhwng Rwsia ac Wcráin; trosglwyddwyd un i'r thema Ymgysylltu â Dadleuon Byd-eang; trosglwyddwyd un i'r thema Ymgysylltu Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig.

Cyflymu tuag at Gytundeb Paris

Mae'r thema hon yn rhan o raglen Ymgysylltu Gwell Robeco, gan gydnabod brys yr argyfwng hinsawdd a'r camau y bydd eu hangen dros y tymor uniongyrchol i leihau allyriadau byd-eang oddeutu 45% erbyn 2030 (fel yr anogir gan yr IPCC). Mae'r ymgysylltiad yn canolbwyntio ar y cwmnïau hynny sydd â'r risg fwyaf o'r trawsnewid ynni a'r rhai sy'n llusgo mewn cynlluniau pontio cadarn. Yn ogystal ag edrych ar ddangosyddion allweddol o ran rheoli risg yn yr hinsawdd, un maes ffocws yw ar lo thermol, o ystyried mai dyma'r tanwydd ffosil sy'n llygru fwyaf ac un lle mae dewisiadau carbon is eraill ar gael. Felly, mae ymrwymïadau'n canolbwyntio ar gyfyngu ar adeiladu gweithfeydd pŵer glo newydd, yn ogystal ag annog cwmnïau i roi cynlluniau pontio cadarn ar waith ar gyfer dileu eu hamlygiad presennol i'r asedau hyn yn raddol.

Astudiaeth achos: POSCO

Mae'r cwmni cynhyrchu dur o Dde Corea wedi bod yn cynhyrchu mwy o ddur gan ddefnyddio gweithfeydd tân glo, sy'n un o'r prif bynciau o ddiddordeb i Robeco. Anfonwyd llythyr at Gadeirydd Pwyllgor ESG POSCO, sydd hefyd yn eistedd ar fwrdd y cwmni, fel rhan o'r gwaith ymgysylltu, a dilynwyd hyn gan alwad gyda thîm cysylltiadau buddsoddwyr y cwmni, yn esbonio pam fod rhoi'r gorau i fuddsoddiadau glo yn berthnasol i fuddsoddwyr. Yn 2022, gwerthodd POSCO ei fusnes glo yn Fietnam ac yn lle hynny gwnaeth gais i adeiladu gwaith nwy naturiol hylifedig ag allyriadau is. Er ei fod yn parhau i adeiladu ei ffatri tan glo yng Nghorea oherwydd cytundebau contractiol, mae POSCO wedi nodi ei fwrdd i adael y busnes hwnnw ar ôl ei gwblhau.

Astudiaeth achos: Nippon Steel

Fel rhan o'i uchelgais o fod yn garbon niwtral erbyn 2050, mae llywodraeth Japan wedi sefydlu Cronfa Arloesi Gwyrdd, gyda'r nod o ariannu'r broses o bontio mewn ymateb i'r hinsawdd a chefnogi cwmnïau o Japan i gyflawni nodau lleihau carbon uchelgeisiol. Fodd bynnag, dim ond 10% o'r cymorthdaliadau y cynigiwyd i ddiwydiant dur Japan. Yn ystod ein gwaith gyda Nippon Steel, un o gynhyrchwyr dur mwyaf y byd, fe wnaethom annog y cwmni i lobïo am fwy o gefnogaeth polisi wrth iddo drawsnewid. Mae'r cwmni bellach yn rhan o'r diwydiant yn lobïo am fwy o gefnogaeth gan y llywodraeth. Mae Japan wedi cyhoeddi cronfa drosglwyddo fwy i gynnwys cymorthdaliadau ar gyfer cynnydd mewn costau ynni a chynhyrchu, gan ehangu ar gwmpas ei Gronfa Arloesi Gwyrdd; fodd bynnag, nid yw'r swm a ddynodwyd ar gyfer y diwydiant dur wedi'i gadarnhau eto.

Adroddodd Robeco ar yr ymgysylltiadau gyda phob cwmni o fewn y thema, ond dim ond un cwmni oedd wedi gwneud cynnydd cadarnhaol erbyn diwedd y cyfnod adrodd. Disgwylir i'r ymgysylltiadau barhau tan 2025/26.

Allyriadau carbon sero net

Mae cyrraedd allyriadau carbon sero net erbyn 2050 yn hanfodol er mwyn atal newid yn yr hinsawdd ac osgoi canlyniadau na ellir eu dadwneud. Yn dilyn mwy o ffocws cymdeithasol ar liniaru newid yn yr hinsawdd, mae effaith y trawsnewid yn cael ei gwreiddio. Mae dewisiadau defnyddwyr yn newid, mae'r rheoliadau'n tynhau, mae technolegau'n datblygu ac mae rhanddeiliaid yn galw ar gwmnïau i weithredu ar newid yn yr hinsawdd. Er bod cwmnïau'n chwarae rhan allweddol wrth liniaru'r risg systemig a achosir gan newid yn yr hinsawdd, maent hefyd yn elwa o'r cyfleoedd sy'n deillio o'r trawsnewid a'r lliniaru. Fel buddsoddwyr, mae'n bwysig deall sut mae allyrwyr allweddol yn integreiddio risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd yn eu cynlluniau masnachol, yn ogystal â rhoi gwybod i'r cwmnïau am ein disgwyliadau ar eu cyfer. Lanswyd y thema hon ar ddechrau 2022 ac mae'n canolbwyntio ar y disgwyliad i gwmnïau osod targedau sero

net hirdymor, a'u cadarnhau â strategaethau credadwy i leihau allyriadau yn y tymor byr a'r tymor canolig, yn ogystal â chynlluniau pontio sy'n sicrhau gostyngiad yn allyriadau'r byd go iawn dros y ddegawd nesaf.

Astudiaeth achos: LyondellBasell

Cyd-arweiniodd Robeco yr ymgysylltiad â LyondellBasell o dan y fenter Climate Action 100+ a chydlynodd gyfarfod â'r cadeirydd yn gynharach yn 2023. Dyma'r tro cyntaf i ymgysylltiad uniongyrchol ag aelod anweithredol o'r bwrdd gael ei gynnal o dan y fenter. Yma, llwyddodd Robeco i gyfleu ei ddisgwyliadau ar gyfer y cwmni, sy'n dal i berfformio'n gymharol wael ar feincnodau allanol, er gwaethaf cynnydd diweddar. Yn dilyn y cyfarfod hwn, cyhoeddodd LyondellBasell ei adroddiad cynaliadwyedd diwygiedig. Roedd yr adroddiad diwygiedig yn cynnwys nifer o welliannau, gan gynnwys cyhoeddi targedau tymor byr a mwy o fanylion ynghylch y strategaeth ddatgarboneiddio hyd at 2030 yr oedd Robeco wedi'i argymhell. Rhoddwyd adborth pellach mewn cyfarfod dilynol gyda'r cwmni, yn benodol o amgylch ein hamcanion yn y dyfodol o'r ymgysylltu â thargedau allyriadau Cwmpas 3 a llobio hinsawdd.

O'r 29 cwmni a gymerodd ran o dan y thema hon, dangosodd chwech gynnydd cadarnhaol; caewyd un achos ymgysylltu fel un effeithiol; a chaewyd un fel un aneffeithiol.

Bioamrywiaeth

Mae colli bioamrywiaeth yn cynyddu ar raddfa frawychus, gydag effeithiau'n cael eu teimlo nid yn unig o fewn y byd naturiol ac ecosystemau, ond hefyd o fewn y sector ariannol. Mae astudiaethau wedi dangos bod gan sefydliadau ariannol gannoedd o biliynau o asedau sy'n ddibynnol iawn ar wasanaethau ecosystem (fel darpariaeth dŵr glân). I ddechrau, roedd y thema yn canolbwyntio ar golli bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â datgoedwigo ymhlith cwmnïau sy'n agored i nwyddau risg uchel, ond mae hyn bellach wedi ehangu i gynnwys ymgysylltu â gyrwyr eraill o ran colli bioamrywiaeth (megis llygredd). Mae'r ymgysylltiad yn disgwyl i gwmnïau asesu eu heffeithiau a'u dibyniaethau ar fioamrywiaeth, a gosod strategaeth bioamrywiaeth. Mae Robeco hefyd yn disgwyl adrodd ar ddangosyddion effaith allweddol yn unol â fframweithiau adrodd cydnabyddedig, fel y Tasglu ar gyfer Datgeliadau Ariannol sy'n Gysylltiedig â Natur.

Astudiaeth achos: Gweithredu Dadgoedwigo'r Sector Cyllid

Mae Robeco yn cymryd rhan weithredol yn y fenter Gweithredu Dadgoedwigo'r Sector Cyllid, grŵp buddsoddwr cydweithredol sy'n cynnwys dros 30 o fuddsoddwyr sydd wedi llofnodi Ymrwymiad Sector Ariannol COP26 ar Ddileu Dadgoedwigo a yrrir gan Nwyddau Amaethyddol trwy gydol gweithgareddau buddsoddi ac ariannu erbyn 2025. Fel rhan o'r grŵp buddsoddwyr, ymunodd Robeco ag ymgyrch llythyr ac ymgysylltu (a lansiwyd ar ddiwedd 2022), gan anelu at ymgysylltu â mwy na 50 o gwmnïau. Ymhlith y cwmnïau a dargedir mae'r cynhyrchydd cig Marfrig a'r cwmni papur a mwydion Suzano, gydag ymgysylltu yn canolbwyntio ar greu targedau di-ddatgoedwigo ac olrhain clir, a phrosesau a datgeliadau diwydrwydd dyladwy.

O'r 18 cwmni yr ymgysylltir â nhw adroddir bod pump ohonynt yn gwneud cynnydd cadarnhaol.

Cydnabyddiaeth Ariannol Weithredol Gyfrifol

Lansiwyd y thema hon yn rhannol mewn ymateb i gyfarwydddeb hawliau cyfranddalwyr yr UE SRD 2, sy'n rhoi'r hawl i gyfranddalwyr bleidleisio ar gydnabyddiaeth ariannol ar sail strwythurol. Mae'r ymgysylltiad yn cydnabod, er y gall polisïau cydnabyddiaeth ariannol fod yn ffordd effeithiol o alinio buddiannau rheolaeth gorfforaethol â buddiannau cyfranddalwyr, er enghraifft mewn digollediad sy'n gysylltiedig ag ecwiti, mai dim ond trwy gynllun sydd wedi'i strwythuro'n ddigonol y gellir cyflawni hyn. Mae'r ymgysylltiad felly'n canolbwyntio ar bedwar maes allweddol: strwythur a goruchwyliaeth o gydnabyddiaeth ariannol weithredol; talu am berfformiad; iawndal ecwiti; a chymarebau cwantwm ac ecwiti cyflog.

Astudiaeth achos: Tesco

Mae Robeco wedi bod yn ymgysylltu â Tesco, manwerthwr yn y DU ar gydnabyddiaeth ariannol weithredol ers 2020, pan wrthodwyd adroddiad cydnabyddiaeth ariannol y cwmni gan fwyafrif o'r pleidleisiau a fwrwyd yn y CCB y flwyddyn honno. Mae'r cwmni wedi cyflwyno gwelliannau ystyrlon i'w gynllun digolledu ers i ni gychwyn ein deialog. Yn fwyaf diweddar, adolygodd Tesco ei bolisi cydnabyddiaeth ariannol ac roedd yn cynnwys metrigau ESG yn y dyluniad cyflog gweithredol, wrth hefyd symleiddio strwythur ei gynllun cymhellant tymor byr.

O'r naw cwmni sy'n cael eu hymgysylltu, mae pump wedi dangos cynnydd cadarnhaol, gyda dim ond un cwmni yn dangos cynnydd negyddol. Disgwylir i'r ymgynghoriad ddod i ben yn 2023.

Cyflawnir gwaith ymgysylltu ychwanegol gan Russell

Er bod Robeco yn cyflawni swyddogaeth stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ffurfiol, mae'r Bartneriaeth hefyd yn elwa o'r gweithgarwch stiwardiaeth y mae Russell yn ei wneud gyda'r daliadau portffolio yn Is-gronfeydd y Bartneriaeth. Mae gan Russell chwe maes ffocws ymgysylltu, sy'n cyd-fynd â barn Partneriaeth Pensiwn Cymru, gan gynnwys fel y'i diffinnir gan flaenoriaethau pleidleisio'r Bartneriaeth. Y meysydd ffocws hyn yw:

Maes	Ffocws
Yr Amgylchedd	Cyfalaf Naturiol: annog rheolaeth amgylcheddol gyfrifol a'r defnydd cynaliadwy o adnoddau Y gallu i wrthsefyll newid hinsawdd: hybu mwy o dryloywder ynghylch datgeliadau ac arferion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd
Cymdeithasol	Cyfalaf dynol: gweithredu ar sut y mae cwmnïau'n denu, yn datblygu ac yn cadw gweithwyr wrth ddarparu amodau gwaith priodol Amrywiaeth a Chynhwysiant: Cynyddu ymwybyddiaeth o effaith amrywiaeth ar berfformiad a diwylliant buddsoddi cwmni
Llywodraethu	Cyfansoddiad y bwrdd ac atebolrwydd: gweithredoedd y bwrdd cyfarwyddwyr sy'n ganolbwynt i lywodraethu corfforaethol Digolledu prif swyddogion: Cysoni digollediad prif swyddogion gyda phwrrpas corfforaethol

Mae Russell yn dilyn proses debyg i Robeco wrth nodi, cychwyn, gweithredu a gwerthuso eu gweithgarwch ymgysylltu. Mae Russell yn cymryd ymagwedd aml-sianel tuag at ymgysylltu:

- ✓ Ymgysylltu â dyroddwyr yn uniongyrchol
- ✓ Ymgysylltu drwy a chydag is-reolwyr fel partneriaid
- ✓ Uno ymdrechion ymgysylltu cydweithredol gyda chyfranogwyr trydydd parti'r farchnad.

Mae'r is-reolwyr sylfaenol o fewn Is-Gronfeydd PPC hefyd yn gweithredu eu rhaglenni ymgysylltu eu hunain, yn unol ag amcanion penodol y mandad dan sylw. Mae hyn yn elwa o ddull 'gweithredol dwbl', lle bydd Russell a'r is-reolwyr sylfaenol yn ymgysylltu â dyroddwyr, gyda Russell yn monitro gweithgaredd Is-Gronfa yn fewnol trwy ei allu goruchwyllo gwell.

Newid yn yr Hinsawdd

Ym mis Mawrth 2023, ymunodd Russell Investments â'r Fenter Ymgysylltu Sero Net, sy'n ceisio cefnogi buddsoddwyr sy'n alinio eu portffolios â nodau Cytundeb Paris. Ar 17 Mawrth 2023, derbyniodd 107 o gwmnïau lythyrau wedi'u personoli yn amlinellu eu disgwyliadau o gynllun pontio sero net credadwy. Roedd hyn yn nodi lansiad y fenter, a fydd, gobeithio, yn cynyddu ac yn cyflymu ymgysylltiad corfforaethol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Mae'r llythyr yn argymhell y dylai cynllun pontio cwmni gynnwys ymrwymiad sero net cynhwysfawr; alinio targedau nwyon tŷ gwydr; perfformiad allyriadau wedi'i olrhain; a strategaeth ddatgarboneiddio gredadwy.

Is-reolwr: ymgysylltu â dyroddwyr

Dros y flwyddyn, nododd Ymgynghorydd Goruchwyllo PPC, wrth gynnal yr adroddiadau risg chwarterol ar newid yn yr hinsawdd a ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu, enw modurol, mewn tair o'r Is-gronfeydd incwm sefydlog, a oedd ymhlith y safle isaf o ran sgoriau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn gyffredinol ac isaf o ran sgoriau Llywodraethu. Mae PPC yn cydnabod mai'r prif risg ar gyfer cronfeydd credyd yw'r potensial y bydd dyroddwyr yn methu â thalu neu'n cael eu hisraddio a all greu colledion i fuddsoddwyr. Gall risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu gyfrannu at hyn; er y gall ffactorau Amgylcheddol a Chymdeithasol beri pryder, byddem yn rhoi mwy o bwyslais ar ffactorau Llywodraethu o fewn y gofod dyled, felly gofynnwyd am adborth gan Russell a'r Is-reolwr ar ymgysylltiad a gawsant gyda'r enw, yn benodol pryderon am arferion cyfrifo a strwythurau perchnogaeth, ond hefyd ar bryderon hawliau dynol o fewn cadwyn gyflenwi'r cwmni.

Ar y pwynt olaf, dywedodd yr Is-Reolwr, mewn trafodaethau gyda'r cwmni, bod yr enw yn gwadu unrhyw ddefnydd o lafurio dan orfod yn un o'i weithfeydd. Wrth gydnabod sicrwydd o'r fath gan swyddogion gweithredol yn y cwmni, dywedodd yr Is-reolwr y byddai archwiliad annibynnol gan drydydd parti yn dileu unrhyw gyhuddiadau o lafurio dan orfod.

Ar y pwynt Llywodraethu, mae hyn yn parhau i fod yn broblemus ac mae wedi dod yn fwy cymhleth yn dilyn IPO un o is-gwmnïau'r rhiant-grŵp, lle mae diffyg cynrychiolaeth bwrdd a strwythur cyfalaf sy'n rhoi rheolaeth bleidleisio i un grŵp wedi bod yn broblemau llywodraethu sylfaenol ers amser maith. Mae'r IPO hefyd wedi creu pryderon ychwanegol, gan gynnwys Prif Swyddog Gweithredol gyda mandad deuol, gwe o groes-ddaliadau, cyfarwyddwyr traws-fyrddio a gwrthdaro buddiannau posibl. Nid yw'r Is-Reolwr wedi derbyn arwydd eto y byddai unrhyw un o'r materion hyn yn cael eu datrys yn y tymor agos. Ar nodyn cadarnhaol, mae'r Is-Reolwr wedi gweld gwelliant yn y cynllun digolledu yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf, ac mae Cysylltiadau Buddsoddwyr wedi tynnu sylw at y ffaith bod yr enw modur (rhiant) yn parhau i feddwl am yrru aliniad. Ar ben hynny, gwnaed gwelliannau i'w ddiwylliant mewnol a rheoli, gyda'r cwmni'n cymryd camau i wella ei system datgelu camarfer mewnol o dan ei Brif Swyddog Gweithredol newydd.

Ymgysylltu â phartïon eraill

Mae PPC hefyd yn ymgysylltu â rhanddeiliaid eraill, gan geisio ymgysylltu'n adeiladol lle bynnag y bo modd. Yn ystod y flwyddyn, ymgysylltodd PPC â Chyfeillion y Ddaear Cymru i drafod safbwynt PPC ar ymgysylltu yn erbyn dadfuddsoddi a gweithredoedd PPC ar Fuddsoddi Cyfrifol dros y chwe mis blaenorol.

Ymatebodd PPC hefyd i lythyr gan Divest Cymru, lle'r oedd yn amlinellu ei safbwynt ar ddadfuddsoddi yn erbyn ymgysylltu, ac amlinellodd y camau y mae wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag allyriadau carbon o fewn ei bortffolios.

Rhoddodd y Cynghorydd Chris Weaver, fel Cadeirydd Cyd-bwyllgor Llywodraethu PPC ar y pryd, gyflwyniad i Gyngor Partneriaeth Cymru ar 'Daith tuag at Leihau Carbon' PPC, gan amlinellu'r camau y mae PPC wedi'u cymryd. Roeddem yn falch bod y cyflwyniad wedi cael derbyniad da gan fynychwyr ac mae'n cynrychioli deialog barhaus gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Sut yr ydym yn uwchgyfeirio pryderon

Gall Partneriaeth Pensiwn Cymru uwchgyfeirio materion sy'n peri pryder yn uniongyrchol gyda Darparwyr Gwasanaethau er mwyn iddynt fynd i'r afael â hwy, ond mae hefyd yn dibynnu ar Ddarparwyr Gwasanaethau i uwchgyfeirio materion lle nad yw cynnydd yn cael ei wneud yn ystod y broses ymgysylltu. Mae'r craffu parhaus gan RISG yn cynnig fforwm ar gyfer trafod ac uwchgyfeirio, er y gall uwchgyfeirio godi yn yr un modd oherwydd trafodaeth mewn fforymau eraill.

Uwchgyfeirio gan Robeco

Mewn ymgysylltu sylfaenol ac ymgysylltu uwch, gellir mynd i'r afael â diffyg ymateb gan gwmni trwy geisio ymgysylltu ar y cyd, mynd i gyfarfod cyfranddallwyr yn bersonol, neu rannu pryderon yn ysgrifenedig gyda'r bwrdd. Gall hyn hefyd arwain at gyfarwyddiadau pleidleisio dirprwyol niweidiol ar eitemau agenda cysylltiedig mewn cyfarfod cyfranddallwyr. Ychwanegir mesur uwchgyfeirio ychwanegol at y rhaglen ymgysylltu uwch, o ystyried bod y math hwn o ymgysylltu wedi'i anelu at gynnal y normau lleiaf posibl ar gyfer ymddygiad disgwylidig mewn perthynas â Chanllawiau UNGC ac OECD.

Mewn ymgysylltu uwch, mae Robeco o'r farn mai'r cam cyntaf yw mynd i'r afael â'r tor-contract ac yna rhoi systemau rheoli priodol ar waith i atal tor-contract o'r fath rhag digwydd eto yn y dyfodol. Caiff y pum amcan canlynol eu pennu felly:

1. Mynd i'r afael â'r tor-contract
2. Datblygu a gweithredu polisi yn y maes perthnasol
3. Sefydlu deialog adeiladol gyda rhanddeiliaid
4. Gweithredu systemau rheoli risg effeithiol
5. Tryloywder ynghylch y tor-contract a'r ymdrechion adfer

Pan fydd ymgysylltu yn arwain at gau'r amcan cyntaf a'r trydydd amcan yn llwyddiannus (h.y. mynd i'r afael â'r tor-contract a sefydlu deialog adeiladol gyda rhanddeiliaid) ac o leiaf un amcan ychwanegol, gofynnir eto i bwyllgor Ymddygiad Dadleuol Robeco gymeradwyo cynnig i gau'r achos ymgysylltu yn llwyddiannus, yn seiliedig ar drosolwg o'r ddeialog ac asesiad o'r pum amcan. Mae'n bwysig nodi hefyd bod achos ymgysylltu sydd wedi'i gau yn aflwyddiannus yn cael ei adolygu gan y Pwyllgor o leiaf yn flynyddol, er mwyn sicrhau bod y tor-contract yn cael ei ailasesu mewn modd amserol. Rhoddir uchafswm o dair blynedd o ymgysylltu â chwmni yn y rhaglen Dadleuon Byd-eang. Mae Robeco bellach yn cymhwyso proses uwchgyfeirio lymach o gymharu â'r un flaenorol, lle gall yr achos gael ei gau'n aflwyddiannus cyn y tair blynedd lawn. Disgwylir i hyn greu mwy o atebolrwydd i gwmnïau adfer yr effaith a achosir ac i wella'r modd y caiff y mater ei reoli, gan felly leihau'r risg o dor-contract tebyg yn y dyfodol.

Amlinellir y llinell amser uwchgyfeirio ar gyfer ymgysylltu uwch isod:



Os nad yw ymgysylltu gwell yn arwain at y newid a ddymunir, bydd Robeco yn hysbysu Partneriaeth Pensiwn Cymru, a all wedyn benderfynu rhoi cyfarwyddyd i Russell ynghylch a ddylid eithrio cwmni o Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru

ai peidio. Mae Robeco o'r farn mai cam olaf yn unig yw eithrio cwmnïau o'r bydysawd buddsoddi, ac mai dim ond ar ôl ymgysylltu y dylai hyn ddigwydd.

Mae'r Bartneriaeth yn nodi bod yna sawl enghraifft o uwchgyfeirio a wnaed gan Robeco yn ei weithgarwch ymgysylltu dros y cyfnod adrodd:

- Cyd-ffeilio Pensiynau Cyfranddeiliaid yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynnyddol pedwar dyroddwr, ar faterion sy'n cynnwys hawliau dynol, caethwasiaeth fodern, newid yn yr hinsawdd ac arferion llywodraethu;
- Cydlofnodi llythyrau buddsoddwyr, ar y cyd ag Investor Alliance for Human Rights, i ddau ddyroddwr;
- Heb lwyddo i gau achosion ymgysylltu manylach gyda phedwar dyroddwr.

Astudiaeth achos: uwchgyfeirio pryderon hawliau dynol drwy Bensiynau Cyfranddeiliaid

Y Mater: mynd i'r afael â phryderon hawliau dynol mewn dau enw technoleg yn yr Unol Daleithiau.

Y Camau a Gymerwyd: Cyd-ffeiliodd Robeco Bensiynau Cyfranddeiliaid mewn perthynas â hawliau dynol yng Nghyfarfodydd Cyffredinol Blynnyddol dau gwmni technoleg o'r Unol Daleithiau dros y flwyddyn adrodd. Ystyrir y dull hwn o uwchgyfeirio fel cam ymarferol pan fu diffyg ymatebolrwydd gan gwmni. Yn y ddau achos, nid oedd ymgysylltiad blaenorol ynghylch tryloywder a datgelu wedi arwain at unrhyw ganlyniadau pendant, gyda'r ddau gwmni yn amharod i ddarparu mwy o fanylion am risgiau sy'n gysylltiedig â hawliau dynol. Yn benodol, gofynnodd y Pensiynau Cyfranddeiliaid am adroddiadau gan y ddau gwmni, i gael eu cynnal gan drydydd partïon annibynnol, yn y drefn honno, ar: (1) asesu dull y cwmni o ymdrin â chamwybodaeth drwy gynnal asesiad effaith ar hawliau dynol ar bolisiâu ac arferion cyffredol; (2) asesu arferion diwydrwydd dyladwy'r cwmni ac a ydynt yn cyd-fynd ag egwyddorion hawliau dynol, ac a wnaeth y defnydd o'i gynhyrchion gyfrannu at dorri hawliau dynol.

Canlyniad: Derbyniodd y ddau Bensiwn Cyfranddeiliaid gefnogaeth sylweddol gan gyfranddalwyr, gan nodi bod tryloywder ynghylch diwydrwydd dyladwy hawliau dynol yn cael ei ystyried yn bryder dwys i fuddsoddwyr. Roeddem yn falch bod un o'r cwmnïau dan sylw wedi estyn allan i Robeco yn dilyn eu CCB, arwydd eu bod yn barod i fynd i'r afael â phryderon cyfranddalwyr.

Astudiaeth achos: ymgysylltu gwell

Y Mater: Ymgysylltu (gwell) â Dadleuon Byd-eang

Y Camau a Gymerwyd: Ers 2020, roedd Robeco wedi bod yn ymgysylltu â chwmni fferyllol mewn perthynas ag arferion gwrth-gystadleuol honedig. Roedd rhan o'r ymgysylltiad yn canolbwyntio ar gryfhau rhaglenni cydymffurfio mewnol ac ar dryloywder o ran sut mae'r cwmni'n mesur effeithiolrwydd rhaglenni o'r fath. Er gwaethaf ymgysylltu parhaus, ni ddarparwyd unrhyw wybodaeth na datgeliadau newydd gan y busnes. Mae'r cwmni hefyd wedi bod yn destun nifer o ymchwiliadau cyfreithiol ynghylch arferion busnes anfoesol honedig. O ystyried natur barhaus yr ymchwiliadau hyn, roedd gan Robeco bryderon bod methiant i fynd i'r afael yn ddigonol â'r materion a godwyd ganddynt, er mwyn atal yr un peth rhag digwydd eto, gan nodi nad oedd y toriad wedi'i ddileu. Ar yr ochr gadarnhaol, cyhoeddodd y cwmni strategaeth gydymffurfio wedi'i diweddarau â thargedau, ac mae wedi gweithio ar ei bolisiâu a'i weithdrefnau ynghylch moeseg a chydymffurfiaeth busnes.

Canlyniad: O ystyried bod pedwar o bum amcan ymgysylltu wedi'u cau fel rhai 'aflwyddiannus', gyda'r ymgysylltiad cyffredinol felly yn cael ei ystyried yn aneffeithiol, gosododd Robeco y dyroddwr ar restr eithrio ei fydysawd buddsoddi, gan ei fod yn methu â chydymffurfio ag isafswm safonau llywodraethu da Robeco.

Uwchgyfeirio gan Russell

Mae Russell yn gweithio gyda'i bartneriaid sy'n is-ymgynghorwyr ac yn cynnal llinellau cyfathrebu agored i drafod unrhyw bryderon am ddyroddwr penodol, gan gredu mai ymgysylltu yw'r offeryn mwyaf effeithiol ar gyfer newid ymddygiad corfforaethol. Mae cyfathrebu o'r fath yn cynnwys mewn achosion pan fydd cwmnïau y mae Russell yn ymgysylltu â nhw (naill ai eu hunain neu mewn cydweithrediad â phartneriaid sy'n is-ymgynghorwyr sylfaenol) yn gwrthod newid neu ddim yn symud yn ddigon cyflym. Pan fydd cwmni'n methu ag ymateb a/neu ddim yn datblygu dro ar ôl tro ar hyd llwybr tuag at weithredu, bydd Pwyllgor Perchnogaeth Weithredol Russell yn penderfynu a ddylid symud yr ymdrech honno i gamau

uwchgyfeirio. Trafodir unrhyw botensial ar gyfer uwchgyfeirio fesul achos, gydag offer fel pleidleisio drwy ddirprwy, ymgysylltu cydweithredol a phryder ysgrifenedig i gyd yn cael eu defnyddio fel strategaethau uwchgyfeirio.

Astudiaeth achos: adolygiad risg hinsawdd: gwella ymrwymïadau ynghylch risg hinsawdd

Fel rhan o adolygiad risg rheolaidd Russell, caiff daliadau eu sgrinio, nodir enwau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu sydd â risg uchel ac mae Russell yn gwahodd sylwebaeth gan y rheolwr gwaelodol ar yr enwau hyn. O fis Ionawr 2023, dechreuodd Russell integreiddio ymgysylltiadau manylach gyda cwmnïau sydd â chysylltiad materol â risg yn yr hinsawdd yn deillio o'u gweithrediadau eu hunain. Mae Russell yn disgwyl i'r cwmnïau hyn ddarparu'n well lefel o dryloywder sy'n ofynnol i ddeall yn well sut y gall risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd effeithio arnynt, a sut maent wedi ymgorffori newid yn yr hinsawdd yn eu strategaeth. Mae'r gred hon hefyd yn ymestyn i fyrddau cwmnïau, lle mae disgwyl i'r cwmnïau hyn fod â chyfrifoldebau goruchwyllo penodol a diffiniedig clir ar gyfer materion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd. Amlygir ymgysylltiad ag un o'r enwau a nodwyd dros y cyfnod adrodd yma:

Cyd-destun: Galwad ymgysylltu â gwneuthurwr a gwerthwr rhyngwladol tanwyddau cludo hylif carbon isel a seiliedig ar betroliwm a chynhyrchion petrocemegol. Mae'r cwmni wedi'i dargedu gan y CA100+.

Amcan: Ymgysylltodd Russell Investments â'r cwmni i egluro persbectif y bwrdd ar y datrysiad sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a'r strategaeth ddatgarboneiddio wrth symud ymlaen.

Canlyniad:

- Methodd y cwmni ag egluro pam ei fod wedi dewis defnyddio methodoleg Cwmpas 3 bwrpasol a ddatblygwyd ganddynt hwy eu hunain yn hytrach na fframwaith cydnabyddedig;
- Methodd y cwmni hefyd â mynegi pam ei fod ymhell ar ei hôl hi yn erbyn cyfoedion o ran datgelu ac arferion yn y mater hwn;
- Er bod y cwmni'n honni ei fod wedi ymgysylltu'n helaeth â'r cyfranddaliwr, nid yw deialog wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol i unrhyw un o'r rhannau.

Fel strategaeth uwchgyfeirio, cefnogodd Russell gynnig y cyfranddaliwr a nodwyd gan y Fenter Climate Action 100+. Mae ymchwil wedi dangos bod y cwmni yn llusgo yn erbyn cyfoedion ac nad yw'r cwmni wedi gallu darparu esboniad cymhellol na chynllun na chamau gweithredu i gau'r bylchau.

Datblygu Polisi Uwchgyfeirio PPC

Er y gall Partneriaeth Pensiwn Cymru uwchgyfeirio unrhyw faterion yn uniongyrchol gyda'i Darparwyr Gwasanaeth, mae cydnabyddiaeth gynyddol ymhlith rhanddeiliaid nad oes gan y Partneriaeth ei strategaeth ei hun ar gyfer uwchgyfeirio. Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn credu na ddylai'r broses o stiwardiaeth fod heb ganlyniad, yn enwedig lle nad yw ymgysylltu â chyhoeddwr yn llwyddiannus.

Er nad yw Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn gyffredinol, wedi mabwysiadu polisi gwahardd o fewn ei drefniadau buddsoddi, mae'r Gronfa wedi ymrwmo i ddatblygu strategaeth uwchgyfeirio, ar y cyd â'i Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Rheolwyr Buddsoddi, Awdurdodau Cyfansoddol a chynrychiolwyr eraill, i ystyried pa gamau y dylid eu cymryd mewn achosion o ymgysylltu aflwyddiannus. Er bod y RISG wedi trafod hyn dros y flwyddyn adrodd, dechreuodd mwy o weithredu pendant yn dilyn diwedd y flwyddyn, gan ymgysylltu â Russell i ddechrau ar sut y gellid datblygu a gweithredu polisi o'r fath.

Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwriadu cwblhau datblygiad y polisi hwn yn ystod 2023/24, gan helpu'r Partneriaeth i 'gau'r ddolen' ar ei weithgarwch stiwardiaeth a hwyluso mwy o dryloywder rhwng Darparwyr Gwasanaethau.

Beth nesaf?

Rydym yn cydnabod mai un o gryfderau unigryw Partneriaeth Pensiwn Cymru yw'r lefel o gydweithio sy'n bodoli rhwng holl gronfeydd CPLIL sylfaenol y Gronfa. Hoffem ddiolch i bob un o'r Awdurdodau Cyfansoddol am eu cyfraniad a'u cefnogaeth barhaus i ddatblygu ein gwaith ar Fuddsoddi Cyfrifol, stiwardiaeth, ac wrth lywio trafodaethau trwy'r RISG. Credwn y gallwn barhau i adeiladu ar yr hyn sy'n sylfaen gadarn, yn enwedig o ran:

- Cwblhau Adroddiad Hinsawdd Cymru Gyfan a defnyddio hyn fel catalydd ar gyfer esblygiad Polisi Risg Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru.
- Symud ymlaen gyda datblygu a gweithredu strategaeth uwchgyfeirio benodol Partneriaeth Pensiwn Cymru mewn achosion o ymgysylltiad aflwyddiannus parhaus ar bryderon materol Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.
- Ystyried mecanwaith ar gyfer cymhwyso polisi gwahardd torwyr UNGC Russell Investments ar draws holl fandadau ecwiti gweithredol Partneriaeth Pensiwn Cymru a reolir gan Russell.
- Parhau i drafod gydag dyranwyr/rheolwyr marchnadoedd preifat ar Fuddsoddi Cyfrifol a stiwardiaeth, ac ymgorffori ein prosesau stiwardiaeth ar draws y mandadau hyn.
- Parhau i drafod gyda'r rheolwr goddefol ar sut y gallwn hyrwyddo ein nodau stiwardiaeth ymhellach, gan gynnwys drwy adrodd a thrwy bleidleisio.
- Cyflogi ein proses Themâu Stiwardiaeth newydd i hybu ymgysylltiad â rhanddeiliaid.
- Adolygiadau mwy rheolaidd o arferion stiwardiaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru gan eu bod yn ymwneud â gwaith stiwardiaeth LAPFF.
- Parhau i esblygu ein hadroddiadau i randdeiliaid.

Er bod y bwriadau a amlinellwyd uchod i gyd wedi'u datblygu mewn rhyw ffordd ar ôl diwedd y flwyddyn, gobeithiwn y gallwn barhau i symud ymlaen nid yn unig yn y meysydd hyn, ond yn yr holl waith a wnawn fel Cronfa. Edrychwn ymlaen at gydweithio pellach dros y 12 mis nesaf!

Cysylltwch â ni

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn yr adroddiad hwn, dylech gysylltu â Phartneriaeth Pensiwn Cymru:

Cyfeiriad Post: Partneriaeth Pensiwn Cymru
Cyngor Sir Caerfyrddin
Adain y Trysorlys a Buddsoddiadau Pensiwn
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

E-bost: partneriaethpensiwncymru@sirgar.gov.uk

Ffôn: (01267) 224136

Mae rhagor o wybodaeth am Bartneriaeth Pensiwn Cymru a diweddariadau parhaus ar gynnydd y Bartneriaeth ar gael ar y wefan a'r dudalen LinkedIn.

Gwefan: <https://www.partneriaethpensiwncymru.org/>

Linked-In: <https://www.linkedin.com/Cwmni/wales-pension-partnership-PPC/>

Atodiad 1: Egwyddorion

Yr Egwyddor	Cyfeirnodau tudalen
1: Pwrpas, strategaeth a diwylliant	4–6
2: Llywodraethu, adnoddau a chymelliadau	7–13
3: Gwrthdaro buddiannau	14–15
4: Hyrwyddo marchnadoedd sy'n gweithio'n dda	30–33, 36–37
5: Adolygu a sicrwydd	16–20
6: Anghenion cleientiaid a buddiolwyr	4, 21–23, 38, 47–48
7: Stiwardiaeth, buddsoddi ac integreiddio ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu	24–27, 29
8: Monitro rheolwyr a darparwyr gwasanaethau	19–20, 23, 27–29
9: Ymgysylltu	38–39, 47–54
10: Cydweithio	36–37, 52, 53, 57
11: Uwchgyfeirio	55–57
12: Ymarfer hawliau a chyfrifoldebau	17, 18, 19, 28, 40–46

Atodiad 2: crynodeb adolygu'r polisi

Yn y tablau isod: mae ● yn dangos bod yr ymrwymiad wedi'i gyflawni; mae ● yn dangos y gwnaed peth cynnydd yn erbyn yr ymrwymiad; mae ● yn dangos na wnaed unrhyw gynnydd.

Polisi Buddsoddi Cyfrifol

Cyf	Ymrwymiad/Datganiad Polisi	Statws
3.3	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gydag Awdurdodau Cyfansoddol o leiaf yn flynyddol i benderfynu ar eu gofynion buddsoddi unigol a'u dyheadau mwy hirdymor.	●
3.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ystyried cyfleoedd yn deillio o gael gwell dealltwriaeth o ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.	●
4.3	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i darparwyr i sicrhau y gellir datblygu mecanwaith cyffredin ar gyfer monitro risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd ar gyfer holl asedau Partneriaeth Pensiwn Cymru.	●
4.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog, trwy ei chynrychiolwyr, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y TCFD.	●
5.3	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i nodi ac ymgysylltu â sefydliadau ar faterion hawliau dynol trwy aelodaeth Partneriaeth Pensiwn Cymru o LAPFF a thrwy'r gweithgaredd ymgysylltu a wneir gan Ddarparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu Partneriaeth Pensiwn Cymru.	●
5.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adrodd ar sut mae gweithgarwch ymgysylltu a wneir gan ei gynrychiolwyr wedi mynd i'r afael â materion hawliau dynol yn flynyddol.	●
7.1, 7.3	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl y bydd yr holl reolwyr buddsoddi a gyflogir o fewn y Partneriaeth yn rhoi ystyriaeth briodol i'r holl risgiau yn gysylltiedig â hinsawdd a risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu eraill wrth wneud penderfyniadau yn eu priod bortffolios. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu â'i reolwyr buddsoddi yn barhaus i sicrhau bod ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu yn cael eu hadlewyrchu'n dryloyw mewn prosesau gwneud penderfyniadau ac y gellir darparu tystiolaethu iawn o'r dull a gymerwyd i reoli ffactorau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu.	●
7.2	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn disgwyl, yn yr holl amgylchiadau perthnasol, y bydd ei rheolwyr buddsoddi yn llofnodi'r Egwyddorion Buddsoddi Cyfrifol a Chôd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU.	●
8.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymgysylltu gyda'i rheolwr buddsoddi goddefol i ystyried sut y gellir ymestyn egwyddorion pleidleisio'r Partneriaeth i gynnwys asedau a reolir gan ei rheolwr buddsoddi goddefol.	●
8.5	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiad ar yr holl weithgarwch pleidleisio, gan gynnwys manylion am unrhyw bleidleisiau na fwrwyd mohonynt ac esboniadau pan na fwrwyd pleidleisiau yn unol â'r egwyddorion y cytunwyd arnynt bob chwarter. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn trafod unrhyw faterion sy'n peri pryder gyda'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, Rheolwyr Buddsoddi neu gynrychiolwyr eraill yn ôl yr angen.	●
8.6	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu'r Polisi Pleidleisio ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, ei hymgyngorwyr a'i rheolwyr buddsoddi yn flynyddol.	●
8.8, 8.9	Ni fydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn rhoi benthg 100% o'r daliad mewn unrhyw stoc sengl, felly gall Partneriaeth Pensiwn Cymru fynegi ei barn a gwneud safiad polisi ar unrhyw bwnc y mae'n ei ystyried o werth drwy ei hawl i bleidleisio. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i fonitro effaith y safbwynt polisi hwn dros amser ac yn adolygu ei pholisi os oes angen.	●
8.12	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn adroddiadau ar unrhyw waith ymgysylltu a wnaed gan ei rheolwyr buddsoddi yn flynyddol.	●
9.1	Ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu cyfleoedd cydweithio posibl yn barhaus, a bydd yn llywio ac yn ceisio mewnbwn gan yr Awdurdodau Cyfansoddol ar unrhyw gyfle o'r fath y mae'n ei ystyried yn berthnasol.	●

Cyf	Ymrwymiad/Datganiad Polisi	Statws
9.3	Ar y cyd â'i Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ceisio adnabod mentrau a chydweithrediadau buddsoddi cyfrifol dan arweiniad buddsoddwyr y gellir rhoi cefnogaeth weithredol iddynt.	●
9.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog rheolwyr buddsoddi gwaelodol i gymryd rhan mewn gwaith ymgysylltu cydweithredol neu gefnogi hyn lle ystyrir ei fod er budd ariannol cyffredinol pennaf yr Awdurdodau Cyfansoddol.	●
9.5	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i gydweithio gyda'r prosiect cydweithredol mewn buddsoddi cyfrifol ar draws cronfeydd pan ddaw unrhyw gyfle addas i wneud hynny.	●
10.1	Mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Cyfansoddol, Cynghorwyr a Rheolwyr Buddsoddi, mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi datblygu metrigau monitro priodol ar gyfer portffolios presennol a bydd yn parhau i gytuno ar fetrigau priodol mewn perthynas â'r holl bortffolios newydd. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Reolwyr Buddsoddi gynnwys metrigau o'r fath yn eu hadrodd chwarterol i Awdurdodau Cyfansoddol.	●
10.3	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn mynnu fod cymhwysedd buddsoddi cyfrifol yr holl reolwyr buddsoddi a benodir yn cael ei adolygu'n flynyddol. Ar y cyd â'r partion perthnasol, bydd y Partneriaeth yn datblygu fframwaith adrodd priodol ar gyfer ei rheolwyr buddsoddi.	●
10.4	Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn llunio a chyhoeddi adroddiad stiwardiaeth yn manylu ar y camau gweithredu a gymerwyd i gyflawni'r polisi hwn a'r canlyniadau a gafwyd gan ddilyn egwyddorion Còd Stiwardiaeth Cyngor Adrodd Ariannol y DU 2020.	●
11.1	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn sicrhau y bydd o leiaf un sesiwn hyfforddiant ffurfiol yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar Fuddsoddi Cyfrifol.	●
11.2	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o ymgorffori Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig yn ei chredoau buddsoddi cyfrifol ac yn ei dulliau o fonitro a mesur.	●
11.4	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn adolygu i ba raddau y mae pob parti yn cadw at y polisi hwn yn flynyddol. Bydd PPC yn cyhoeddi canlyniadau eu hasesiad mewn adroddiad cyhoeddus.	●

Polisi Risg Hinsawdd

Cyf	Ymrwymiad/Datganiad Polisi	Statws
13	Rôl Partneriaeth Pensiwn Cymru yw ymgynghori â phob Awdurdod Cyfansoddol mewn perthynas â'u hamcanion hinsawdd, yn flynyddol o leiaf, ac i ddeall yn llawn pa ddatrysiadau gweithredu sydd eu hangen arnynt i gyflawni eu hamcanion a'u hymrwymiaidau.	●
14	Yn dilyn ei ymgynghoriad â phob Awdurdod Cyfansoddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i ddatblygu a hwyluso datrysiadau buddsoddi sy'n galluogi pob Awdurdod Cyfansoddol i gyflawni ei amcanion a'i ymrwymiaidau o safbwynt yr hinsawdd.	●
15	Lle bo'n bosibl, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, a'i Hawdurdodau Cyfansoddol, yn ceisio cydweithio i ddatblygu datrysiadau buddsoddi sy'n bodloni amcanion ac ymrwymiaidau hinsawdd yr holl Awdurdodau Cyfansoddol.	●
16	Os na ellir datblygu datrysiadau buddsoddi unedig a chydweithredol sy'n bodloni amcanion a gofynion pob Awdurdodau Cyfansoddol ar yr un pryd, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gydag unrhyw Awdurdodau Cyfansoddol i ddatblygu datrysiadau buddsoddi wedi'u teilwra a fydd yn eu galluogi i gyflawni eu hamcanion a'u gofynion lleol eu hunain.	●
18, 19	Yn flynyddol, bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn asesu a yw ei hymarfer ymgynghori gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol wedi nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae'r holl Awdurdodau Cyfansoddol yn fodlon ei gefnogi. Bydd Nod Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei adolygu'n rheolaidd, yn dilyn ymgynghori â'r Awdurdodau Cyfansoddol, a bydd bob amser yn cael ei yrru gan ofynion cyfunol yr Awdurdodau Cyfansoddol. Os nad yw ymarfer ymgynghori Partneriaeth Pensiwn Cymru gyda'r Awdurdodau Cyfansoddol yn nodi amcan cyffredin sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd y mae pob Awdurdod Cyfansoddol yn barod i'w gefnogi'n unfrydol	●

	, yna ni fydd Nôd Hinsawdd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cael ei lunio nes bod cefnogaeth unfrydol ar gyfer Nôd Hinsawdd penodol.	
21	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru yn derbyn Adroddiadau Monitro Risg Hinsawdd chwarterol am ei His-gronfeydd Ecwiti ac Incwm Sefydlog. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn parhau i archwilio ac ymchwilio i ddatblygiadau yn y farchnad sy'n gwella ei allu i asesu amlygiad i risg hinsawdd o fewn ei His-Gronfeydd.	●
23	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn ymdrechu i hwyluso dadansoddiad senario hinsawdd yn barhaus ar draws asedau a gaiff eu dal o fewn y Bartneriaeth i sicrhau bod yr Awdurdodau Cyfansoddol yn ymwybodol o'r risgiau hinsawdd posibl o fewn Is-gronfeydd Partneriaeth Pensiwn Cymru.	●
24	Mae Partneriaeth Pensiwn Cymru wedi ymrwymo i gynnal o leiaf un sesiwn hyfforddi flynyddol sy'n gysylltiedig â risg hinsawdd ar gyfer ei rhanddeiliaid. Mae'r Bartneriaeth yn cynnal ymarfer adnabod anghenion hyfforddiant blynyddol, ar y cyd â'r Awdurdodau Cyfansoddol. Dyma'r mecanwaith y mae'r Bartneriaeth yn ei ddefnyddio i fesur gofynion hyfforddiant risg hinsawdd ei rhanddeiliaid.	●
27	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gweithio gyda'i Rheolwyr Buddsoddi i sicrhau eu bod yn cyfrif am risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd a'u hintegreiddio yn eu prosesau buddsoddi. Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn flynyddol o leiaf, yn adolygu ymagwedd pob un o'i Rheolwyr Buddsoddi tuag at integreiddio Risg Hinsawdd.	●
29	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu i ymgysylltu â'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt ar faterion sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, gan gynnwys cynnydd yn y datgeliadau gan gwmnïau i fuddsoddwyr ar risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd.	●
30	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn monitro newidiadau yn arfer y farchnad i sicrhau bod y Bartneriaeth yn gwbl ymwybodol o newid mewn arfer gorau a dichonoldeb monitro risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd o fewn ei his-gronfeydd di-ecwiti yn flynyddol o leiaf.	●
31	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn gofyn i'w rheolwyr buddsoddi fonitro'r cysylltiad â risg sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn eu hadroddiadau chwarterol i'r Bartneriaeth a'r Awdurdodau Cyfansoddol.	●
33	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru, yn adrodd yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd, gan gynnwys adrodd ar y camau a gymerwyd wrth gyflawni'r polisi hwn a bydd yn cefnogi'r Awdurdodau Cyfansoddol yn eu hadroddiadau TCFD eu hunain.	●
34	Bydd Partneriaeth Pensiwn Cymru yn annog, trwy ei Darparwr Pleidleisio ac Ymgysylltu a'i Rheolwyr Buddsoddi, pob cwmni y buddsoddir ynddynt i ddatgelu yn unol â gofynion y Tasglu ar Ddatgeliadau Ariannol yn Gysylltiedig â'r Hinsawdd.	●